Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



# STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2026/27 - 2030/31



**Medi 2025**

# CYNNWYS


| | Page |
|---|---|
| **1. Crynodeb Gweithredol** | 3 |
| **2. Cyflwyniad** | 7 |
| 2.1 Pwrpas | 7 |
| 2.2 Amcan y Strategaeth | 7 |
| **3. Blaenoriaethau'r Gyllideb** | 8 |
| 3.1 Strategaeth Gorfforaethol 2022-27 | 8 |
| 3.2 Yr Economi | 10 |
| 3.3 Addysg | 11 |
| 3.4 Llesiant Gydol Oes | 12 |
| 3.5 Statws Carbon Sero Net erbyn 2030 | 14 |
| 3.6 Priffyrdd a Seilwaith | 14 |
| 3.7 Strategaeth Ddigidol | 15 |
| 3.8 Recriwtio | 15 |
| 3.9 'Y 3 Gwasanaeth Mawr' | 16 |
| **4. Cyd-destun Economaidd, Ariannol a Deddfwriaethol Allanol** | 17 |
| 4.1 Amgylchedd Economaidd | 17 |
| 4.2 Chwyddiant | 17 |
| 4.3 Cyfraddau llog | 17 |
| 4.4 Cyflog Byw Gwirioneddol i Weithwyr Gofal | 18 |
| 4.5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 18 |
| 4.6 Rheoleiddwyr Allanol | 19 |
| **5. Ffactorau Cenedlaethol a Lleol** | 20 |
| 5.1 Amgylchedd Gwleidyddol | 20 |
| 5.2 Cyllid Llywodraeth Cymru | 20 |
| 5.3 Treth y Cyngor | 23 |
| 5.4 Premiymau Treth y Cyngor | 25 |
| 5.5 Ffioedd a Thaliadau | 26 |
| 5.6 Ardoll Ddewisol Ymwelwyr | 26 |
| 5.7 Diwygio Treth y Cyngor/ Ardrethi Annomestig | 27 |
| 5.8 Pwysau o ran Costau | 28 |
| **6. Demograffeg a thueddiadau eraill** | 31 |
| **7. Rhagolwg Ariannol Tymor Canolig a Strategaeth y Gyllideb** | 37 |
| **8. Egwyddorion y Gyllideb** | 40 |
| 8.1 Rheoli Adnoddau yn Effeithiol | 40 |
| 8.2 Gweithio mewn Partneriaeth, Cyllid Allanol a Chydweithio | 41 |
| 8.3 Egwyddorion y Gyllideb Refeniw | 41 |
| 8.4 Egwyddorion y Gyllideb Gyfalaf | 43 |
| 8.5 Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a Balansau | 44 |
| **9. Asesiad Risg a Dadansoddiad Sensitifrwydd** | 45 |

# 1. Crynodeb Gweithredol

1.1 **Mae Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 y Cyngor yn nodi'r glir bedwar Amcan Llesiant Corfforaethol**, gyda phob un o'r rhain yn cael eu hategu gan wahanol flaenoriaethau a'r canlyniadau disgwyliedig. Nod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yw darparu adnoddau a fframwaith ariannol i sicrhau y gellir cyflawni'r canlyniadau cyn belled ag y bo modd, yn ogystal â sicrhau bod cyllideb gytbwys yn cael ei gosod yn flynyddol a bod yr Aelodau'n ymwybodol o'r heriau a'r risgiau ariannol cysylltiedig.

1.2 **Mae nifer o flaenoriaethau allweddol o'r Strategaeth Gorfforaethol wedi'u cwblhau**, gan gynnwys:

- ✓ Ysgol Dyffryn Aeron.
- ✓ Cynllun Tai Cymunedol i gynorthwyo cefnogaeth i drigolion lleol brynu eu heiddo eu hunain yng Ngheredigion.
- ✓ Y Ganolfan Les gyntaf (yn Llambed).
- ✓ Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron.
- ✓ 2 gyfleuster Newydd I Blant o fewn y sir.
- ✓ Canolfan Byw'n Annibynnol Penmorfa yn Aberaeron.
- ✓ Symud preswylwyr o Gartref Gofal Tregerddan i Hafan y Waun.
- ✓ Gwneud y gorau o ddefnydd adeiladau gan gynnwys cydweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.
- ✓ Denu digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol mawr i Geredigion.
- ✓ Cyflwyno Cerbydau Trydan ar gyfer Gwasanaethau Parcio.

1.3 **Mae gan Geredigion hanes o osod a chyflawni cyllideb gytbwys** yn ogystal â chael sêl bendith gan Archwilio Cymru:

- Cyhoeddwyr barn archwilio ddiamod ar gyfrifon 23/24.
- Cyflawnwyd tanwariant o £310k ar gyfer blwyddyn ariannol 24/25 (0.16% o'r gyllideb).
- Gwnaed nifer o sylwadau cadarnhaol gan Archwilio Cymru yn eu hadolygiad o Gynaliadwyedd Ariannol y Cyngor, wrth gydnabod bod angen dull cynhwysfawr i ymestyn i'r tymor canolig hyd at y tymor hir.

1.4 Pennwyd Cyllideb Net Ceredigion ar gyfer 2025/26 yn £209.2m - 69% wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a 29% gan Drethdalwyr y Cyngor. Arweiniodd hyn at gynnydd o 9.3% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer elfen y Cyngor. Roedd y cynnydd yn cynnwys nifer o elfennau:

- cynnydd craidd o 4.3%
- 0.6% ar gyfer ardoll Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru
- 2.9% i dalu am ddiffyg mewn cyllid sy'n gysylltiedig ag Yswiriant Gwladol Cyflogwyr
- 1.5% ar gyfer buddsoddiad yn y Gwasanaethau Casglu Gwastraff a Gorfodi Cynllunio Gwastraff.

Treth Band D (gan gynnwys praeseptiau'r Heddlu a Chynghorau Tref a Chymuned) yng Ngheredigion oedd £2,296 – ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o £2,170.

1.5 Gellir crynhoi her ariannol y tymor Canolig fel a ganlyn:

| Dangosol | 2026/27 £m | 2027/28 £m | 2028/29 £m | 2029/30 £m | 2030/31 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwysau Cost y Gyllideb | 10.1 | 9.6 | 9.4 | 9.1 | 9.0 |
| Incwm Treth y Cyngor | -4.8 | -5.2 | -5.7 | -6.0 | -6.1 |
| Cyllid Setliad Cyllid Allanol Cyfun (AEF) Llywodraeth Cymru | -2.9 | -2.4 | -2.4 | -2.4 | -2.5 |

| Bwlch yn y Gyllideb | 2.4 | 2.0 | 1.3 | 0.6 | 0.4 |
|---|---|---|---|---|---|

Mae hyn yn seiliedig ar gynnydd o 2.0% gan Lywodraeth Cymru yn 26/27 a rhagdybir, a chynnydd o 1.6% o hynny ymlaen, ynghyd â yn Nhreth y Cyngor. **Byddai'r sefyllfaoedd hyn yn arwain at Brif Fwlch Cyllidebol dros y 5 mlynedd nesaf o £6.7m.**

1.6 Ar ôl ystyried targed blynyddol Gostyngiadau yn y Gyllideb (i gydnabod taith barhaus y Cyngor i wella, ynghyd â ffactorau hysbys a/neu benderfyniadau sydd wedi'u gwneud eisoes), **yna mae'r diffyg yn y Gyllideb gyffredinol yn gostwng I £3.5m dros y 5 mlynedd nesaf**.

| Dangosol | 2026/27 £m | 2027/28 £m | 2028/29 £m | 2029/30 £m | 2030/31 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Bwlch yn y Gyllideb** | **2.4** | **2.0** | **1.3** | **0.6** | **0.4** |
| Gostyngiadau yn y Gyllideb | -1.0 | -0.8 | -0.5 | -0.5 | -0.4 |
| **Diffyg yn y Gyllideb** | **1.4** | **1.2** | **0.8** | **0.1** | **-** |

Mae cydberthynas glir rhwng dyfarniadau cyflog blynyddol, setliadau cyllid blynyddol Llywodraeth Cymru a maint y Diffyg yn y Gyllideb. **Yr agosaf yw dyfarniadau Cyflog i gyd-fynd â setliadau cyllido LIC, yr isaf a'r mwyaf rheoladwy yw'r Diffyg yn y Gyllideb**. Dyma pam felly mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn dangos gostyngiad parhaus yn Niffyg y Gyllideb dros amser gan fod unioni pellach i'w ddisgwyl.

1.7 Cafodd Cyllideb 25/26 gynnydd o 3.8% mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru, ond eto arweiniodd at gynnydd o 9.3% yn Nhreth y Cyngor oherwydd pwysau costau yn rhedeg ar gyfradd chwyddiant o 6.5%. Wrth ystyried pa mor ddibynnol yw'r Cyngor ar gyllid Llywodraeth Cymru (69% o'r gyllideb net), bydd sefyllfa lle byddai cyllid craidd Llywodraeth Cymru ond yn cynyddu o 1.6% i 2.0% dros y tymor canolig yn parhau i arwain at roi baich mwy ar drethdalwyr lleol. **Yn yr hirdymor, mae'r gymhareb ariannu yn debygol o gael ei rhannu i 60% (cyllid LIC) a 40% (Treth y Cyngor) yn sgil lefel annigonol o gyllid yn cael ei ddarparu i Geredigion .**

1.8 Byddai modelu lefelau uwch o'r Dreth Gyngor, at ddibenion eglurhaol, yn lleihau'r Diffyg yn y Gyllideb ddangosol ar gyfer pob blwyddyn. **Ym mhob sefyllfa, byddai lefel Treth y Cyngor sy'n deillio o hynny yn llai na 10% (ar y sail bod pob rhagdybiaeth arall yn wir).**

| Treth y Cyngor Cynnydd Band D | | Diffyg dangosol yn y gyllideb sy'n deillio o hynny | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % | Y mis | 2026/27 £m | 2027/28 £m | 2028/29 £m | 2029/30 £m | 2030/31 £m |
| **7.5%** | **£11.79** | 1.4 | 1.2 | 0.8 | 0.1 | - |
| **8.0%** | **£12.58** | 1.1 | 0.8 | 0.4 | -0.5 | -1.0 |
| **8.5%** | **£13.36** | 0.7 | 0.4 | - | -1.0 | -1.6 |
| **9.0%** | **£14.15** | 0.4 | - | -0.5 | -1.5 | -2.2 |
| **9.5%** | **£14.94** | 0.1 | -0.3 | -0.9 | -2.0 | -2.8 |
| **10.0%** | **£15.72** | -0.2 | -0.7 | -1.4 | -2.6 | -3.4 |

** Mae'r ffigur misol yn ymwneud â 2026/27.*

1.9 Elfen y Cyngor Sir o fil Treth y Cyngor Band D yng Ngheredigion ar gyfartaledd yw £1,887. Dengys y tabl isod, at ddibenion egluro, y cynnydd cyfartalog i filiau Treth y Cyngor o ystod ehangach o godiadau yn Nhreth y Cyngor:

| Effaith ar Fand D | Sefyllfaoedd wrth Gynyddu Treth y Cyngor | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 5% | 7.5% | 10% | 12.5% |
| **Blynyddol** | £94 | £141 | £189 | £236 |
| **Misol** | £8 | £12 | £16 | £20 |
| **Wythnosol** | £2 | £3 | £4 | £5 |

1.10 **Crynodeb:**

- Mae chwyddiant ac yn ei dro pwysau ar gostau wedi cilio o'r uchafbwynt o £22.2m (13.4%) a welwyd yng Nghyllideb 23/24, ond disgwylir i'r dyfarniadau cyflog i fod yn uwch na chwyddiant cyffredin a setliadau cyllid LIC yn y tymor agos.
- Y diffyg dangosol yn y Gyllideb ar gyfer 26/27 yw £1.4m (yn seiliedig ar ragdybiaeth o 2.0% o gyllid Llywodraeth Cymru, modelu Treth y Cyngor ar 7.5% a thua £1.0m o Ostyngiadau yn y Gyllideb.)
- Ar gyfer 26/27, gan ddefnyddio'r sefyllfa a'r rhagdybiaethau sydd wedi'u hamlinellu, byddai dileu Gostyngiad yn y Gyllideb yn bosibl trwy ddefnyddio modelu Treth y Cyngor am lai na 10%.
- Y gostyngiad dangosol yn y Gyllideb dros gyfnod o 5 mlynedd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yw £3.5m (yn seiliedig ar fodelu Treth y Cyngor o 7.5%).
- Mae pob cynnydd o 1% yng nghyllid craidd LIC yn werth tua £1.5m.
- Mae pob cynnydd o 1.0% yn Nhreth y Cyngor yn cynhyrchu ychydig o dan £0.6m
- Mae pob dyfarniad cyflog ychwanegol o 1.0% ar draws yr holl staff cyflogedig yn costio tua £1.5m.

Mae'r fersiwn diweddaraf hwn o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn mynd ymhellach i'r dyfodol - bellach yn cwmpasu cyfnod o 5 mlynedd. Dylai sicrhau bod Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol ac nad yw'n creu Diffyg yn y Gyllideb cwbl afrealistig neu anghyraeddadwy, fodd bynnag, wrth wneud hynny mae cynnydd yn y rhagdybiaethau sylfaenol o Dreth y Cyngor. **Y dewis arall yw bod gostyngiad sylweddol yn y ddarpariaeth o'r ystod o Wasanaethau a swyddogaethau rheng flaen y Cyngor, sy'n gofyn am benderfyniadau gwleidyddol perthnasol**.

1.11 **Mae nifer o ffactorau gwleidyddol allanol a allai ddylanwadu ar y tymor byr** gan gynnwys Cyllideb Ddrafft 2026/27 Llywodraeth Cymru, Cyllideb yr Hydref Canghellor y DU, etholiadau Seneddol ym mis Mai 2026 ac etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2027.

1.12 Fel rhan o ymgyrch y Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus a sicrhau gwerth am arian, bydd egwyddorion ariannol cyffredinol y Cyngor i gynorthwyo'r Gyllideb dros gyfnod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y cynnwys:

- Gostyngiadau gweithredol / effeithlonrwydd yn y gyllideb lle bynnag y bo'n bosibl.
- Mynd ar drywydd cyfleoedd Rheoli Trysorlys ac Arian Cyfalaf ar gyfer cynilo.
- Defnyddio Premiymau Treth y Cyngor o fewn y paramedrau y cytunwyd arnynt gan y Cyngor Llawn.
- Rhesymoli adeiladu a/neu optimeiddio defnydd adeiladau.
- Darparu gwasanaethau gan y 3ydd Sector (gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned) lle bo hynny'n briodol.
- Mesurau Effeithlonrwydd Ynni a Rhesymoli Fflyd (gan ddarparu ar gyfer Sero Net lle bo'n economaidd hyfyw).
- Dull Tîm Ceredigion i barhau i fynd ar drywydd Arloesi ar draws yr holl Wasanaethau.
- Cynnal seilwaith addysg ariannol hyfyw.
- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd Cynhyrchu Incwm.
- Buddsoddi wrth gyflawni'r Strategaeth Ddigidol.
- Sicrhau bod digon o gyllid cyllideb sylfaenol i ddiogelu gweithrediadau Gwasanaeth craidd.
- <u>Peidio</u> â thargedu toriadau cyllideb i Wasanaethau, oni bai bod cyfeiriad gwleidyddol i leihau neu roi'r gorau i Wasanaethau neu swyddogaethau yn sylweddol (gan fod y gallu i ddarparu'r un gwasanaeth safonol gyda llai o adnoddau yn dod yn amhosibl).

1.13 **Ar hyn o bryd nid yw'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig _yn_ cynnwys modelu ariannol manwl mewn perthynas ag uchelgeisiau strategol y Cyngor ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol ar gampws Prifysgol Llanbedr Pont Steffan a'r cyffiniau**. Mae gan y Cyngor a Phrifysgol y Drindod Dewi Sant uchelgeisiau sylweddol a fydd yn gofyn am swm mawr o fuddsoddiad cyfalaf o sawl ffynhonnell ariannu allanol ac ochr yn ochr â'r modelu refeniw hwn bydd angen modelu refeniw. Ar hyn o bryd mae'r datblygiadau arfaethedig yn dal i fod yn gysyniadol i raddau helaeth, fodd bynnag, bydd modelu ariannol yn ffactor allweddol wrth i amser fynd yn ei flaen.

# 2. Cyflwyniad

## 2.1 Pwrpas

Pwrpas y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yw rhagweld sefyllfa ariannol bosibl y dyfodol ac wrth wneud hynny darparu fframwaith llywodraethu ariannol i weithredu ynddo, trwy nodi'r materion allweddol y mae angen eu deall a'u hystyried er mwyn paratoi ar gyfer yr her o osod cyllideb gytbwys dros y tymor canolig.

**Ni ddylid ystyried y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig fel cyllideb fanwl ffurfiol nac yn bendant**, yn hytrach, mae'n cynnig dull trosfwaol y bydd angen i'r Cyngor ei mabwysiadu er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau gan gynnwys ystyried yr amgylchedd deddfwriaethol, economaidd allanol a phwysau gwario a chyllid dangosol a ragwelir dros y cyfnod.

## 2.2 Amcan y Strategaeth

Amcan ariannol y Cyngor yw defnydd gofalus a chyfrifol o adnoddau a chyllideb gytbwys, ac i sicrhau bod gwydnwch ariannol y Cyngor yn cael ei gynnal a bod y Cyngor yn gynaliadwy yn ariannol. Amcan cyffredinol y strategaeth hon yw:

> *"darparu fframwaith a chyfeiriad a pharamedrau cyffredinol er mwyn i'r Cyngor strwythuro a rheoli ei gyllid, er mwyn sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio mewn modd cyfrifol a gofalus".*

Mae'r strategaeth hon yn cyflawni hyn drwy:

- Amlinellu egwyddorion ar gyfer datblygu a phennu'r gyllideb flynyddol.
- Integreiddio a chydnabod grymoedd allanol yn y broses gyllidebol.
- Integreiddio cynllunio ariannol a busnes, adlewyrchu blaenoriaethau Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 a rhagweld pwysau sy'n wynebu'r Awdurdod.
- Nodi'r prif gysylltiadau â phrosesau eraill, ystyriaethau craidd a themâu ariannol i'w hystyried.
- Nodi lefelau amcangyfrifedig o incwm, gwariant a buddsoddiad cyfalaf dros gyfnod o 5 mlynedd.
- Darparu un ddogfen i gyfleu'r cyd-destun, nodau ac amcanion ariannol i randdeiliaid.
- Caniatáu i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried fforddiadwyedd wrth ddyrannu adnoddau i gyflawni blaenoriaethau.

Mae deall y cyd-destun ariannol cyffredinol yn bwysig er mwyn sicrhau cyllideb gadarn a chytbwys yn ystod y blynyddoedd nesaf, gan y cydnabyddir bod cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol yn debygol o fod yn gyfyngedig.

# 3. Blaenoriaethau'r Gyllideb

## 3.1 Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027

Mae Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2022-2027 yn nodi pedwar Amcan Llesiant Corfforaethol y Cyngor sydd wedi'u cynllunio i wella a hybu lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol dinasyddion Ceredigion. Y pedwar **Amcan Strategol Llesiant** y mae angen i'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig eu cefnogi i gyflawni'r canlynol yw:




Yr amcanion cyffredinol hyn yw lle bydd y Cyngor yn cyfeirio ei adnoddau i ailfywiogi'r economi leol a darparu amgylchedd ffyniannus, iach, diogel a fforddiadwy lle gall dinasyddion a chymunedau Ceredigion ffynnu. Mae cronfa wedi'i chlustnodi ar gyfer pob Amcan Llesiant Corfforaethol, fel bod cyllid ar gael ar gyfer blaenoriaethau allweddol lle bo hynny'n bosibl. Yn ei gyfanrwydd, ar 31/03/23, mae £12.1 miliwn wedi'i glustnodi mewn pedair cronfa wrth gefn.

Nodwyd yr Amcanion Llesiant Corfforaethol trwy ddadansoddiad helaeth o dystiolaeth ac ymgysylltiad â thrigolion y sir, gan gynnwys uchelgeisiau'r weinyddiaeth Wleidyddol bresennol, ymgysylltu ehangach â'r Aelodau, Asesiad Ceredigion o Lesiant Lleol ac ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Gorfforaethol yn ystod Medi/Hydref 2022. **Gydag etholiadau lleol Llywodraeth Leol ym mis Mai 2027, bydd Strategaeth Gorfforaethol newydd am y cyfnod o 2027 ymlaen yn fater i unrhyw weinyddiaeth newydd, a allai effeithio ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.**

Mae'r Amcanion Llesiant wedi'u nodi trwy lens Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd hyn yn cynnwys nodi sut y gallai'r Cyngor wneud y mwyaf o'i gyfraniad i'r nodau llesiant cenedlaethol a hefyd sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio'r egwyddor datblygu gynaliadwy i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Diben craidd Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor yw dangos sut y bydd yr awdurdod yn cefnogi ac yn hyrwyddo cynaliadwyedd a lles dinasyddion Ceredigion, trwy ei Weledigaeth hirdymor a'i Amcanion Strategol. Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu'r risgiau i gyflawni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol hyn tra hefyd yn nodi sut y bydd adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio i reoli a lliniaru'r risgiau yn ystod y tymor byr i'r tymor canolig.

**Ein gweledigaeth**

***Bod Cyngor Sir Ceredigion yn darparu gwerth am arian, gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog cynaliadwy, sy'n cefnogi economi gref ac amgylchedd iach, wrth hyrwyddo llesiant ein pobl a'n cymunedau.***

Mae blaenoriaethau penodol wedi'u nodi yn y Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027:

## HYBU'R ECONOMI, CEFNOGI BUSNESAU A GALLUOGI CYFLOGAETH

- **Datblygu Bargen Twf Canolbarth Cymru gwerth £110m**
- **Cefnogi busnesau lleol wrth wella o COVID-19**
- **Cefnogi busnesau newydd a busnesau sy'n tyfu yn y Sir**
- **Creu cyfleoedd gwaith newydd i bobl ifanc medrus**
- **Hybu cyfle cyfartal mewn cyflogaeth**
- **Cyflawni twf economaidd cynaliadwy**
- **Mynd ar drywydd y Cynllun Datblygu Lleol**
- **Blaenoriaethu cynnyrch o ffynonellau lleol a chadwyni cyflenwi**
- **Gwella Band eang 4G**
- **Cyllid teg o fewn rhaglen Arfor**
- **Gwella cysylltedd digidol, a chysylltedd o ran trafnidiaeth ac ynni**
- **Mynd i'r afael a thlodi yng Ngheredigion**
- **Cefnogi rhieni sy'n gweithio yng Ngheredigion**
- **Gwella'r ddarpariaeth sgiliau a chyfleoedd dysgu i bobl 16+ oed**
- **Datblygu prentisiaethau yn y Sir ymhellach**

## CREU CYMUNEDAU GOFALGAR AC IACH

- Darparu ar gyfer anghenion gofal ein poblogaeth
- Cyflwyno'r Rhaglen Gydol Oed a Llesiant
- Hybu'r Gymraeg yng Ngheredigion
- Lansio Canolfannau Llesiant ar draws y Sir
- Mynd ar drywydd mentrau i hyfforddi a recriwtio staff Gofal Plant a gofal cymdeithasol
- Datblygu cyfleuster gofal ychwanegol Cylch Caron yn Nhregaron
- Croesawu a chefnogi ailsefydlu ffoaduriaid
- Datblygu seibiannau/anadliad gofalwyr a chefnogi'r dyhead o greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol i Gymru
- Cefnogi cyfleusterau iechyd meddwl cymunedol
- Annog a galluogi pobl i fod yn gorfforol egnïol fel y gallant elwa ar iechyd a lles cadarnhaol
- Datblygu cynllun gwella ar gyfer darpariaeth strategol cyfleusterau i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol yn y sir
- Gwella rôl Cysylltwyr Cymunedol i gefnogi datblygiad cymunedau cydnerth
- Datblygu digwyddiadau cyfranogiad ymhellach i sicrhau bod gan gymunedau lais
- Datblygu a chynyddu nifer y rhaglenni gweithgareddau allgwricwlaidd a gwyliau cyffredinol â ffocws
- Datblygu a chynyddu nifer y grwpiau a rhaglenni cymorth

## DARPARU'R DECHRAU GORAU MEWN BYWYD A GALLUOGI POBL O BOB OED I DDYSGU


- Buddsoddi mewn ysgolion ar draws y Sir, gan gynnwys yr estyniad 3 llawr carbon sero net yn Ysgol Uwchradd Aberteifi
- Cyflwyno'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022 i 2032
- Sicrhau bod disgyblion yn gyfathrebwyr hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn digwydd Cyfnod Allweddol 2 (blwyddyn 6)
- Cefnogi Cyngor Ieuenctid Ceredigion fel fforwm i blant a phobl ifanc
- Datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder Plant a Phobl Ifanc i wneud ymarfer corff
- Datblygu sgiliau arwain ein Plant a'n Pobl Ifanc ar y cyfle cyntaf
- Cefnogi'r gwaith o ddarparu Prydau Ysgol am ddim i ddisgyblion ysgolion cynradd
- Cefnogi'r ddarpariaeth gofal plant a ariennir ar gyfer pob plentyn dwy oed
  Gweithio gyda phartneriaid i gyflawni Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu cyfleusterau Theatr Felinfach
- Sicrhau bod pob dysgwr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu cefnogi i fod yn unigolion annibynnol
- Darparu cymorth i ysgolion weithredu'r cwricwlwm newydd i Gymru yn llwyddiannus
- Datblygu Strategaeth Ddiwylliannol a Strategaeth Tegwch i gefnogi llesiant mewn ysgolion a chymunedau

## CREU CYMUNEDAU CYNALIADWY A GWYRDD SYDD WEDI'U CYSYLLTU'N DDA Â'I GILYDD

- Blaenoriaethu lleihau allyriadau carbon a dilyn ein nod o fod yn Garbon Sero Net erbyn 2030
- Adeiladu ar berfformiad gwych Ceredigion ym maes ailgylchu
- Symud tuag at fflyd o gerbydau ag allyriadau isel iawn yn y Cyngor
- Gweithio gyda Chymdeithasau Tai i gynyddu ein stoc tai cymdeithasol
- Byddwn yn parhau i fynd i'r afael a materion ail gartrefi, perchnogaeth tai haf, a throsi cartrefi preswyl i dai gwyliau drwy geisio cefnogaeth Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth o dan y Ddeddf Cynllunio a'r Gwasanaeth Trethi
- Galluogi mwy o bobl ifanc i adeiladu cartref am oes
- Annog cadw enwau lleoedd Cymraeg
- Rydym wedi cydnabod difrifoldeb y mater sy'n gysylltiedig â lefelau ffosffadau ar hyd Dyffryn Teifi yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Gwneir pob ymdrech drwy'r Bwrdd Rheoli Maetholion i ddod o hyd i atebion cynnar i'r broblem
- Chwilio am atebion i'r llifogydd a geir yn nyffryn Teifi
- Mynd ar drywydd cyllid ar gyfer amddiffynfeydd i'r arfordir yn Aberaeron ac Aberystwyth a datblygu cynigion ar gyfer cam nesaf yr amddiffynfa arfordirol yn y Borth ac ar gyfer y lan yn Llangrannog
- Atal a dad-wneud y dirywiad mewn bioamrywiaeth gan gynnwys yn ein hamgylchedd morol
- Cefnogi rhagor o ddarpariaeth ar gyfer cerdded a beicio
- Dadlau'n gryf o blaid cyswllt rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin

### 3.2 Yr Economi

Mae Strategaeth 'Hybu Economi Ceredigion – Strategaeth i Weithredu 2020-35' y Cyngor yn amlinellu pedwar maes blaenoriaeth lle bydd ein gweithgareddau'n cael eu targedu i wneud gwahaniaeth a fydd hefyd yn cefnogi'r Nodau Llesiant Cenedlaethol:




Mae'r Strategaeth hon yn alinio'n agos â'r blaenoriaethau sy'n datblygu o'n partneriaeth â Chyngor Sir Powys a phartneriaid ehangach fel rhan o Dyfu Canolbarth Cymru – a bydd yn helpu i lywio'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol datblygol er mwyn ei gyflawni'n lleol.

Cyrhaeddodd Bargen Twf Canolbarth Cymru garreg filltir arwyddocaol yn 2022 pan lofnodwyd Cytundeb y Fargen Derfynol gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Chynghorau Ceredigion a Phowys, yn seiliedig ar ddatblygu a chyflwyno Portffolio yr Achos Busnes, sy'n cael ei ddiweddaru'n flynyddol. Cytunodd y ddwy lywodraeth i ddarparu £55 miliwn, sef cyfanswm o £110 miliwn dros gyfnod o hyd at 15 mlynedd o 2023/25 hyd at 2037/38. Erbyn hyn, mae £15.9m o gyllid wedi'i ryddhau i'r Cyngor dros flynyddoedd 1 a 2 y Fargen Twf.

Ar hyn o bryd mae gan y Portffolio Achos Busnes gyfres o raglenni a phrosiectau sy'n ymdrin ag ystod o gynigion buddsoddi ar draws nifer o themâu - digidol, twristiaeth, bwyd a diod amaethyddol, ymchwil ac arloesi a chefnogi mentrau. Mae'r Bargen Twf bellach wedi dechrau'r Cyfnod Cyflawni yn ffurfiol gyda £6.9m o gyllid wedi'i ddyfarnu ar draws 5 Prosiect / Rhaglen gan dynnu £6.9m arall o arian cyfatebol gan gynnwys buddsoddiad yn y sector preifat. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y Ganolfan Arloesi Gweithgynhyrchu Bwyd yn Horeb i ddatblygu'r Achos Busnes ymhellach.

Y Cyngor yw'r awdurdod arweiniol ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) yn Rhanbarth Canolbarth Cymru sy'n cwmpasu'r cyfnod gwreiddiol o 3 blynedd o 2022/23 i 2024/25 a blwyddyn drosiannol 2025/26. Bydd cyfanswm o tua £56m yn cael ei weinyddu yn ystod y cyfnod hwn. Mae olynydd UKSPF o 2026/27 ymlaen i'w gadarnhau o hyd. Cadarnhaodd datganiad Gwanwyn 2025 y Canghellor y bydd cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn parhau ar yr un lefel â 25/26 ar ffurf Cronfa Twf Lleol am gyfnod o 3 blynedd o 26/27 hyd at 28/29, er nad yw'r manylion ymarferol yn hysbys gan gynnwys sut y bydd yn gweithredu yng Nghymru. Mae'r Cyngor hefyd yn llwyddiannus wrth weinyddu £10.8m o gronfa Ffyniant Bro ar gyfer Aberystwyth, sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2026. Mae hyn wedi cynorthwyo i drawsnewid 'Yr Hen Goleg' yn Aberystwyth ac fe fydd yn adfywio Promenâd Aberystwyth.

Mae'r Cyngor wedi denu Digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol i Geredigion trwy Rali Ceredigion (bellach yn gymal Rali Ewropeaidd FIA) a'r Bencampwriaeth Seiclo Brydeinig. Mae'r rhain yn ffurfio rhan ehangach o Raglen Digwyddiadau Ceredigion, gyda buddsoddiad cymeradwy o tua £1.5m mewn amryw o ddigwyddiadau ar draws y cyfnod rhwng 2025/26 i 2027/28. Caiff digwyddiadau effaith uniongyrchol ar yr economi leol gydag amcangyfrif o fuddion economaidd o tua £4.7m o Rali Ceredigion ac amlygiad sylweddol yn y cyfryngau cenedlaethol a rhyngwladol. Mae ymchwil yn dangos ein bod yn gweld cymhareb 6:1 o enillion economaidd yn erbyn buddsoddiad yn y sector gyhoeddus ar gyfer digwyddiadau mawr chwaraeon. Mae prosiect

Amddiffyn Arfordir Aberaeron hefyd yn cynnwys elfen sy'n denu ymwelwyr ar ffurf Morglawdd y Gogledd, sy'n ymestyn i'r môr ac yn caniatáu cerddwyr i gerdded allan ar lwybr cerdded concrit.

Gwnaed buddsoddiad sylweddol a rheolaidd (£346k) yn y Gwasanaeth Gorfodi Cynllunio fel rhan o Gyllideb 25/26 y Cyngor. Bydd y capasiti ychwanegol hwn yn galluogi tîm newydd o 9 swydd cyfwerth â llawn amser (gan gynnwys adnodd cyfreithiol pwrpasol) i gymryd dull wedi'i dargedu a chryfhau dull y Cyngor yn y maes hwn.

Mae rhoi hwb i Economi Ceredigion yn cael ei ategu gan gronfa benodol wedi'i glustnodi ar gael i gefnogi buddsoddiad lle bo angen, sy'n £7.5m ar 31/03/25. Mae £500k arall wedi'i glustnodi ar wahân ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru.

### 3.3 Addysg

Buddsoddiad cyfalaf diweddaraf y Cyngor, i orffen Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, oedd yr Ysgol ardal newydd yn Nyffryn Aeron a agorodd ym mis Ionawr 2025 - Ysgol Dyffryn Aeron. Mae contract Dylunio ac Adeiladu 2 gam bellach wedi'i osod ym mis Awst 2025 ar gyfer estyniad newydd ac adnewyddu Ysgol Gymraeg Aberystwyth.

Bydd cyfrannau o fuddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol yn cael eu datgloi drwy Raglen Amlinellol Strategol (SOP) o dan raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu gan Lywodraeth Cymru. Cyflwynwyd Rhaglen Amlinellol Strategol y Cyngor i LIC ym mis Mai 2024 yn nodi prosiectau blaenoriaethol y Cyngor dros y 9 mlynedd nesaf fel rhan o raglen dreigl o 3 cham: Blynyddoedd 1 i 3, Blynyddoedd 4 i 6 a Blynyddoedd 7 i 9 mlynedd. Derbyniwyd cymeradwyaeth mewn egwyddor gan LIC i symud ymlaen fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Blynyddoedd 1-3 | Prosiect 1: Canolfan Enfys a Pili Pala – Ysgol Gynradd Llwyn yr Eos<br>Prosiect 2: Uned Cyfeirio Disgyblion Ceredigion |
| Blynyddoedd 4-6 | Prosiect 3: Darpariaeth Ôl-16<br>Prosiect 4: Ysgol Gynradd Aberaeron<br>Prosiect 5: Ysgol Gynradd Rhydypennau<br>Prosiect 6: Ysgol Gynradd Penparc<br>Prosiect 7: Ysgol Padarn Sant (ysgol Gatholig newydd) |

Ar hyn o bryd, mae achosion busnes yn mynd rhagddo ac mae £2.554m o'r 25% o gyllid cyfatebol y Cyngor ar gyfer y prosiectau ym Mlynyddoedd 1 i 3 wedi'i neilltuo. Nid yw'r cyllid wedi'i glustnodi eto ar gyfer Blynyddoedd 4 ymlaen.

O ganlyniad i'r datblygiadau diweddar yn Llanbedr Pont Steffan, mae gan y Cyngor (gan weithio mewn partneriaeth â'r Drindod Dewi Sant) uchelgeisiau sylweddol ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol gan ddefnyddio Campws Prifysgol Llanbedr Pont Steffan gan gynnwys prynu fferm a thir cysylltiedig sy'n ffinio â rhan uchaf y safle. Bydd yr uchelgeisiau yn gofyn am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol i gael ei ddefnyddio o sawl ffynhonnell ariannu allanol ac ochr yn ochr â'r modelu refeniw manwl hwn bydd angen modelu refeniw manwl. Mae'r datblygiadau arfaethedig ar hyn o bryd yn dal i fod yn gysyniadol i raddau helaeth, ond bydd modelu ariannol manwl yn ffactor allweddol wrth i amser fynd rhagddo a byddant yn cael eu cynnwys unwaith y byddant yn ddigon datblygedig.

Mae cytundeb Menter Cyllid Preifat y Cyngor ar Ysgol Penweddig yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2030. Mae cynllunio prosiect cynnar ar y gweill gan gynnwys adolygiad o Wiriadau Iechyd sydd wedi darfod gan Lywodraeth Cymru a sefydlu nifer o grwpiau ffrydiau gwaith i reoli'r trosglwyddiad ac integreiddiad asedau, a darpariaeth gwasanaeth ysgolion i'r Cyngor. Bydd angen dyrannu adnoddau pellach i'r prosiect hwn yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Mae ysgolion Ceredigion yn parhau i wynebu heriau ariannol gyda 3 ysgol (allan o gyfanswm o 41 Ysgol) mewn diffyg wrth i flwyddyn ariannol 24/25 ddod i ben (sefyllfa Ceredigion o gyfanswm £22k o ddiffyg – cyfartaledd o £7k i bob ysgol). Er hyn, mae'n cymharu'n ffafriol â'r darlun cenedlaethol

o fod cyfartaledd o 27% o ysgolion Cymru mewn diffyg gyda gwerth cyfartalog y diffyg yn £182k a chyfanswm y sefyllfa o ddiffyg mewn ysgolion ar draws Cymru o £72m, gyda Cheredigion yn meddu ar y diffyg cyfartalog isaf yng Nghymru. Mae'r 3 ysgol honno wedi gosod Cyllideb gytbwys yn y flwyddyn ar gyfer 25/26. Er yr heriau, nid oes gan Geredigion unrhyw ysgolion mewn Categorïau Dilynol statudol.

Mae'r seilwaith Addysg bresennol yn annhebygol o fod yn hyfyw yn ariannol yn y tymor canolig i'r tymor hir oherwydd tueddiadau hirdymor o ostyngiad yn nifer y disgyblion, yn enwedig yn sector Ysgolion Cynradd. Mae'n ofynnol i bob ysgol osod cyllideb gytbwys bob blwyddyn. Mae hyn yn profi i fod yn anoddach flwyddyn ar ôl blwyddyn, oherwydd y cynnydd cyson mewn costau. Mae'n amlwg nad yw'r cyllid grant Ôl-16 gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol i gynnal darpariaeth Ôl-16 yn ei ffurf bresennol yng Ngheredigion, gan fod gwariant yn sylweddol uwch na gwerth y grant.

Comisiynodd Cyngor Sir Ceredigion Adolygiad o'r ddarpariaeth ôl-16 yng Ngheredigion yn 2023 i ddadansoddi'r opsiynau presennol a nodi modelau cynaliadwy yn y dyfodol. Wedi hynny, cymeradwyodd y Cabinet astudiaeth ddichonoldeb i ymchwilio ymhellach i Opsiwn 2 (cynnal y chwe safle presennol gyda bwrdd strategol) ac Opsiwn 4 (sefydlu Canolfan Ragoriaeth ar un neu fwy o safleoedd), gan ganolbwyntio ar egwyddorion sy'n canolbwyntio ar y dysgwr:

- Adolygu'r Ddarpariaeth Ôl-16 Yng Ngheredigion
- Adroddiad - Astudiaeth Dichonolrwydd – Adolygu Darpariaeth Addysg Ôl-16

Cytunodd y Cabinet i gymeradwyo dechrau Opsiwn 2, er mwyn sicrhau trefniadau addas ar gyfer cynllunio ar y cyd o'r cwricwlwm ôl-16. Fe wnaethant hefyd gymeradwyo gwaith pellach i Opsiwn 4 er mwyn rhoi ystyriaeth fanylach i sefydlu Canolfan Ragoriaeth (ar un neu fwy o safleoedd addas).

Ar 02/05/23 cymeradwyodd y Cabinet yr 'Egwyddorion ar gyfer Sicrhau Seilwaith Addysg Gynaliadwy'. Fodd bynnag, er ei bod yn cael ei gydnabod nad oedd nifer fach o Ysgolion Cynradd yn bodloni un neu fwy o'r meini prawf craidd, bydd unrhyw ystyriaethau pellach bellach yn dibynnu i raddau helaeth ar y Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig a fydd yn cael ei gyhoeddi gan LlC. Felly, nid yw'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn gwneud unrhyw ragdybiaethau penodol yn hyn o beth.

### 3.4 Llesiant Gydol Oes

Mae'r Cyngor bellach yn gweithredu model Llesiant Gydol Oed ar gyfer darparu'r hyn a fyddai'n draddodiadol yn cael ei ystyried yn wasanaethau Gofal Cymdeithasol. Felly, nid yw'r amlinelliad traddodiadol o wasanaethau Oedolion a Phlant bellach yn bodoli yng Ngheredigion.

Mae gweithredu a chyflwyno'r Rhaglen Llesiant Gydol Oed (TAW) yn parhau ar ôl creu Porth Cymorth Cynnar, Porth Gofal a Phorth Cynnal. Mae'r Strategaeth yn cwmpasu cyfnod 2021 i 2027 a chytunwyd arni gan y Cabinet ym mis Hydref 2021 a oedd yn nodi sut y bydd y Cyngor:

- Gosod Model Llesiant Gydol Oes newydd ar waith.
- Lleihau'r galw am ofal a chymorth a reolir a chanolbwyntio adnoddau ar y rhai sydd eu hangen fwyaf.
- Cefnogi ein gweithlu i ddatblygu dull newydd o gefnogi unigolion o fewn Ceredigion.
- Ffocws ar wasanaethau ataliol sy'n helpu pobl i barhau'n annibynnol neu adennill eu hannibyniaeth y maent ei angen ac yn ei werthfawrogi.
- Cydweithio gyda phartneriaid i ddarparu systemau Iechyd, Lles a Gofal Cymdeithasol mwy cysylltiedig

Gwelodd Cyllideb y Cyngor adlinio sylweddol yn ystod 2020/21 i strwythur newydd y Pyrth. Gwnaed buddsoddiad refeniw yn Strwythur Staffio Llesiant Gydol Oed dros 2 flynedd ariannol ac mae buddsoddiad cyfalaf yn cael ei wneud mewn meysydd allweddol fel cyfleusterau Plant yn y sir, sefydlu Canolfannau Lles, Cartrefi Gofal Awdurdodau Lleol a threialu ar gyfer Gofal wedi'i

alluogi gan Dechnoleg. Cyflawnodd model gweithredu Llesiant Gydol Oed danwariant (£169k) yn y flwyddyn ariannol 24/25 am y tro cyntaf ers sefydlu'r model, sy'n sefyllfa ariannol unigryw o'i gymharu â'r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru.

Daeth Asesiad Perfformiad y Panel Adolygu gan Gymheiriaid i'r casgliad bod yna enghreifftiau cadarnhaol lle mae'r Cyngor wedi dangos arloesedd ac arfer da i wneud y gorau o'r defnydd o'i adnoddau, gan gynnwys Canolfan Llesiant y Cyngor yn Llanbedr Pont Steffan, y strategaeth rheoli asedau a ddefnyddir mewn perthynas â Chartref Gofal Preswyl Hafan y Waun a datblygiad Canolfan Byw'n Annibynnol Penmorfa. Mae adroddiadau gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn gyffredinol yn ategu'r safonau uchel yng Ngheredigion ac mae rheoleiddwyr wedi nodi bod model Llesiant Gydol Oed yn arloesol yn ei ddull gweithredu, yn ogystal â gosod meincnodau ledled Cymru mewn perthynas â datblygu gwasanaethau drwy'r oed ynghyd â'r ffocws ar gymorth cynnar ac atal.

Buddsoddiad allweddol mewn Gofal wedi'i Alluogi gan Dechnoleg (TEC) yw Canolfan Byw'n Annibynnol Penmorfa newydd sy'n hyrwyddo annibyniaeth a chymorth cymunedol a ddylai drawsnewid y ffordd y mae unigolion yn dod o hyd i atebion a chael mynediad at wybodaeth i helpu eu hunain. Y weledigaeth yw grymuso unigolion i fyw'n annibynnol gartref am gyfnod hirach. Mae'r Ganolfan yn rhoi cyfle i weld ystod o atebion sy'n gysylltiedig â Gofal, Technoleg, Symudedd a Byw'n Annibynnol. Yn ogystal â hyn, mae'r ystod o offrymau ar gyfer Teleofal yn parhau i gynyddu, gydag ymgyrch i symud i atebion digidol (e.e. un neu fwy o synwyryddion TEC cynorthwyol yng nghartref person ochr yn ochr â larwm teleofal digidol) a chatalog o atebion TEC yn parhau i esblygu, gan gynnwys dod yn bartneriaid â chwmnïau allanol i gynnal treialon lleol o atebion posibl.

Cymerodd y Cyngor berchnogaeth o Gartref Gofal Preswyl Hafan y Waun ddiwedd 2023 ac mae'n parhau i fuddsoddi yn y Cartref. Mae hyn wedi cynnwys trosglwyddo gwasanaethau gofal preswyl o Gartref Gofal Preswyl Tregerddan, gweithio ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda sy'n meddiannu adain o'r adeilad ar gyfer eu ward 'Y Bwa' ac adnewyddu gwahanol rannau o'r adeilad gan gynnwys gosod paneli solar PV.

Mae gofal cymdeithasol serch hynny yn parhau i weld cynnydd yn y galw am wasanaethau sy’n achosi pwysau ariannol mawr ar draws y model Llesiant Gydol Oed. Mae hyn yn bennaf gyffredin yn y meysydd Plant sy’n Derbyn Gofal (o fewn y sir), Lleoliadau Plant y Tu Allan i’r Sir, lleoliadau i bobl hŷn a lleoliadau Anabledd Dysgu, ynghyd â heriau recriwtio gyda gofyniad parhaus (er yn raddol ostwng) i ddefnyddio staff asiantaeth mewn cartrefi gofal preswyl ac ar gyfer rolau gweithwyr cymdeithasol proffesiynol. Mae’r Cyngor yn gweld cynnydd yng nghymhlethdod achosion ar draws y gwasanaethau hyn sy’n ychwanegu elfen bellach i’r galw cynyddol.

Mae’r Cyflog Byw Gwirioneddol yn elfen bwysig mewn perthynas â Gwasanaethau Comisiynu allanol a darparwyr sy’n gweithredu o fewn yr amrywiol sectorau Gofal Cymdeithasol. E.e. Gofal yn y Cartrefi Byw a Chartrefi Gofal i Bobl Hŷn. Mae LIC yn cynnal polisi y dylai holl staff Gofal Cymdeithasol gael eu talu i lefel y Cyflog Byw Gwirioneddol ac felly dylai ystyriaethau ynghylch codi ffioedd yn flynyddol ar gyfer darparwyr adlewyrchu hyn.

Fel awdurdod lleol blaengar, mae Ceredigion wedi ymrwymo i feithrin ac ehangu cyfleoedd. Yn ganolog i strategaeth y Cyngor mae pwyslais cryf ar fuddsoddi mewn llwybrau 'tyfu ein hunain', yn enwedig drwy brentisiaethau / hyfforddeion mewn sectorau hanfodol fel gwaith cymdeithasol a gwasanaethau Gofal a Chymorth. Mae'r mentrau hyn wedi'u cynllunio nid yn unig i fynd i'r afael ag anghenion uniongyrchol y gweithlu, ond hefyd i feithrin datblygiad gyrfa hirdymor i drigolion lleol a lleihau'r defnydd o asiantaethau.

Gan ategu'r ymdrechion hyn, mae'r Cyngor yn barod i ddatgloi cyfleoedd pellach ar gyfer cynnydd proffesiynol mewn Gofal Cymdeithasol trwy raglenni cydweithredol / dysgu ar Gampws Llanbedr Pont Steffan. Trwy gysylltu addysg, hyfforddiant ymarferol a chyflogaeth, nod Ceredigion yw creu rhwydwaith gadarn ar gyfer meithrin talent a sicrhau cynaliadwyedd ac ansawdd y ddarpariaeth gofal cymdeithasol ar draws y rhanbarth.

Mae Cronfeydd Integreiddio Rhanbarthol (RIF) yn cael eu tynnu'n ôl o fis Ebrill 2027 gan gynnwys cyfnod graddio posibl cyn hyn. Bydd angen ystyried statws gwahanol raglenni wrth i'r dirwedd ariannu ranbarthol yn y dyfodol ddod yn gliriach.

### 3.5 <u>Statws Carbon Sero Net erbyn 2030</u>

Ers cryn amser, mae'r Cyngor wedi cydnabod pwysigrwydd newid yn yr hinsawdd a'i effaith hirdymor ar gymunedau a'r amgylchedd. Mae ganddo ymrwymiad parhaus i leihau ei ôl troed carbon, a fydd o fudd i'r Awdurdod a'r gymuned ehangach drwy leihau allyriadau carbon a sicrhau arbedion o ran costau ynni.

Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, mae'r Cyngor wedi bod yn datblygu cynllun tri cham i symud tuag at y nod o gyflawni statws allyriadau carbon sero net erbyn 2030. Mae hon yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor ac mae'n cyd-fynd â nod datganedig Llywodraeth Cymru i ddatgarboneiddio sector cyhoeddus Cymru erbyn 2030 ynghyd â chynnig ffurfiol y Cyngor Llawn.

Bu nifer o ddatblygiadau cadarnhaol yn yr ardal:

- Llwyddodd Ysgol Dyffryn Aeron i gael sgôr Rhagorol BREEAM (sy'n asesiad o berfformiad amgylcheddol yr adeilad), a chafodd y sgôr uchaf hyd yn hyn ar gyfer adeilad addysg yn y Deyrnas Unedig.
- Cyllid ULEV (Cerbydau Allyriadau Isel Iawn) Llywodraeth Cymru ar gyfer seilwaith gwefru cerbydau trydan.
- Cyllid Gwasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru sef cyllid llenwi'r bwlch ar gyfer ddatgarboneiddio'r fflyd a arweiniodd at gyflwyno cerbydau trydan ar gyfer y Gwasanaethau Parcio.
- Grant Gwres Carbon Isel Llywodraeth Cymru.
- Cyllid Cyfalaf y Cyngor ar gyfer mesurau Effeithlonrwydd Ynni gan gynnwys gosod paneli solar ffotofoltaig (PV) ar nifer o eiddo'r Cyngor.

Dylai'r cynlluniau hyn arwain at ostyngiadau sylweddol yn yr allyriadau ac arbedion refeniw ar draws nifer o adeiladau gweithredol, a bydd y cynlluniau hyn hefyd yn sicrhau bod yr adeiladau'n rhedeg yn fwy effeithlon.

Mae'r Cyngor yn parhau i adolygu a datblygu'r cynllun sero net, a bydd cynlluniau penodol yn cael eu hamlygu a'u blaenoriaethu yn seiliedig ar eu hachos busnes a'r cyllid fydd ar gael gan gynnwys dod o hyd i unrhyw gyllid grant allanol pan fo cyfleoedd yn codi. Fodd bynnag, ni fydd yn bosib cyrraedd Sero Net erbyn 2030 gyda'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd.

### 3.6 <u>Priffyrdd a Seilwaith</u>

Dylai cam adeiladu Cynllun Amddiffyn yr Arfordir yn Aberaeron ddod at ei derfyn ar ddiwedd mis Medi 2025. Ariannwyd cyllideb wreiddiol y cynllun gan Lywodraeth Cymru yn bennaf, sef 85% drwy Fenter Benthyca Llywodraeth Leol gyda 15% o gyllid cyfatebol gan y Cyngor. Mae'r gofyniad gwreiddiol o ran cyllid cyfatebol y Cyngor o dua £4.5m wedi'i nodi mewn cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi, fodd bynnag bydd unrhyw orwariant ar y cynllun yn golygu costau ychwanegol i'r Cyngor (oni bai bod Llywodraeth Cymru'n cytuno i ddarparu cyllid ychwanegol).

Erbyn hyn mae Cynllun Amddiffyn yr Arfordir yn Aberystwyth wedi pasio'r cam Achos Busnes Amlinellol, a llwyddwyd i gael £722k o gyllid yn ystod 25/26 i ddatblygu'r dyluniad manwl er mwyn symud ymlaen i gyflwyno'r Achos Busnes Llawn. Os bydd yr Achos Busnes Llawn yn cael ei gymeradwyo, bydd angen i'r Cyngor ddarparu 15% o gyllid cyfatebol ar gyfer y cam adeiladu, ac nid yw'r cyllid hwn wedi'i glustnodi eto.

Fel rhan o Gyllideb 25/26, cymeradwyodd yr Aelodau fuddsoddiad cylchol o £481k yn y Gwasanaeth Casglu Gwastraff, yn dilyn cyfnod o heriau gweithredol. Roedd hyn yn gyfuniad o fuddsoddiad mewn staff ac yn y fflyd a rhoi 3 llwybr ar gontract i'r sector preifat. Mae perfformiad ailgylchu'r Cyngor yn parhau'n gryf iawn a bydd data'n cael ei fonitro yn dilyn cyflwyno'r cyfyngiad o 3 bag du ar ddiwedd mis Mehefin 2025, er mwyn gallu adrodd ar y tueddiadau ar draws yr holl ffrydiau gwastraff a'u hadolygu maes o law.

Bydd y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd bob amser yn dangos ôl-groniad o waith. Bydd angen i'r buddsoddi barhau os yw cyflwr ffyrdd Ceredigion am aros yn uwch na'r targed a osodwyd ar gyfer ffyrdd B ac yn agos at y targedau a osodwyd ar gyfer ffyrdd A ac C. Ar gyfer 25/26 a 26/27 mae Llywodraeth Cymru'n darparu buddsoddiad sydd wir ei angen ar gyfer Priffyrdd ar draws Cymru drwy gylch newydd o gyllid drwy Fenter Benthyca Llywodraeth Leol ar gyfer Priffyrdd. Bydd Ceredigion yn derbyn cyfanswm o £4.6m ar draws y ddwy flynedd ac mae'r Cyngor eisoes wrthi'n cyflawni cynlluniau gan ddefnyddio'r cyllid hwn.

Yn hanesyddol, nid yw cyllid ar gyfer trafnidiaeth ranbarthol wedi ffafrio siroedd gwledig sydd ar wasgar yn ddaearyddol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n ystyried newid y ffordd y maen nhw'n cyllido trafnidiaeth ranbarthol ac mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu y bydd Canolbarth Cymru'n cael fwy o siâr o'r cyllid. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu defnyddio'r Cydbwyllgorau Corfforedig i rannu'r cyllid hwn. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'r Cyngor o'r farn mai model Awdurdod Arweiniol (yn debyg i'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer cyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig) fyddai'r dull mwyaf effeithiol ac effeithlon ar gyfer y math hwn o gyllid, yn hytrach na chreu haen ychwanegol o fiwrocratiaeth a gweinyddiaeth drwy Gydbwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru.

## 3.7 <u>Y Strategaeth Ddigidol</u>

Mae'r Cyngor wedi datblygu a chymeradwyo Strategaeth Ddigidol newydd a fydd mewn grym o 2024 hyd at 2030. Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar gyflwyno datblygiad digidol cynaliadwy, hirdymor ar draws yr holl wasanaethau. Bydd yn annog arweinyddiaeth ddigidol ac yn galluogi'r Cyngor i barhau i ddarparu gwasanaethau rhagorol i bobl Ceredigion.

Ar 31 Mawrth 2025, roedd £1.2m wedi'i roi naill ochr mewn cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi o'r enw 'Buddsoddiad mewn TGCh a Digidol' er mwyn helpu i gyflawni'r strategaeth hon. Un o'r prif flaenoriaethau cyntaf i'w cyflawni fel buddsoddiad digidol yw system reoli achosion gofal cymdeithasol newydd sy'n addas i'r diben yn lle'r system WCCIS bresennol gan fod saernïaeth TGCh y system honno'n dod at ddiwedd ei hoes. Penodwyd y cyflenwr newydd (OLM) gyda'r cynnyrch 'Eclipse'. Mae'r system bellach wedi'i rhoi ar waith ac mae ar gael i'w defnyddio.

## 3.8 <u>Recriwtio a Chadw Staff</u>

Nid yw Ceredigion yn wahanol i lawer o sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a phreifat, o ran y ffaith fod rhannau o'r gweithlu wedi dewis ymddeol a / neu adael a bod lefel uwch na'r arfer o swyddi gwag ar draws llawer o wasanaethau, nid yn unig y gwasanaethau Pyrth o fewn y Model Llesiant Gydol Oes. Mae'n flaenoriaeth allweddol yn y gyllideb i oresgyn yr her recriwtio hon, gan gynnwys lleihau'r defnydd o staff asiantaeth drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gwahanol ac arloesol.

Er mwyn cefnogi'r flaenoriaeth hon, cyflwynwyd ystod o fesurau rhagweithiol i gryfhau'r broses recriwtio a chadw staff. Mae'r rhain yn cynnwys y gwerthoedd a'r ymddygiadau sefydliadol a ddiffiniwyd o'r newydd, a gefnogir gan frand cyflogwr a strategaeth farchnata sy'n cyd-fynd â'i gilydd. Erbyn hyn rydym yn darparu sesiynau gwybodaeth ar-lein yn rheolaidd i farchnata'r cyfleoedd gyrfa sydd ar gael a hyrwyddo'r Cyngor fel cyflogwr delfrydol. Mae'r sesiynau hyn hefyd yn rhoi cyngor a chymorth i ymgeiswyr, gan roi'r siawns orau iddynt lwyddo.

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn y dull ‘Meithrin Gweithwyr Cymdeithasol ein Hunain’, ac yn ddiweddar cyflwynwyd cynllun newydd i raddedigion sy’n ychwanegu at ein rhaglenni presennol ar gyfer prentisiaethau a gweithwyr dan hyfforddiant. Rydym hefyd yn datblygu ein gwaith partneriaeth gyda Phrifysgol Aberystwyth a Phrifysgol y Drindod Dewi Sant i gryfhau llwybrau talent.


Rydym wedi symleiddio’r broses ar gyfer gwneud cais am swydd er mwyn gwella’r profiad ar gyfer ymgeiswyr ac rydym wedi lansio cynllun newydd ar gyfer buddion cyflogwyr sy’n cynnig disgowntiau, cymorth llesiant, ac arbedion ffordd o fyw. Ochr yn ochr â hyn, yn ddiweddar rydym wedi mabwysiadu ystod o bolisïau newydd ac wedi addasu rhai polisïau ac maent wedi’u dylunio mewn ffordd sy’n sicrhau bod profiad gweithwyr cystal ag y gallai fod. Yn ogystal, rydym wedi cyflwyno Arolwg Pobl newydd sydd wedi bod yn hanfodol i gael profiadau’r gweithlu, nodi’r heriau o ran cadw staff, ac amlygu’r arfer orau er mwyn bwydo i mewn i’r gwelliannau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol.

**3.9 <u>‘Y 3 Gwasanaeth Mawr’</u>**

Er cydnabyddir y blaenoriaethau a nodir yn yr adran hon, mae’n anodd osgoi’r ffaith bod 3 gwasanaeth mawr, statudol sydd ar y rheng flaen yn cynrychioli tua 75% o gyllideb refeniw flynyddol y Cyngor, sef Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gydol Oes, Ysgolion a Dysgu Gydol Oes, a Phriffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol.

Mae’r siart isod yn dangos dadansoddiad o Gyllideb Reoladwy 2025/26 yn ôl Gwasanaeth:

**<u>Cyllideb Reoladwy 2025/26 yn ôl Gwasanaeth</u>**




Ar ôl darparu ar gyfer costau sefydlog eraill (yn bennaf) (h.y. Lwfansau Aelodau, Ardoll yr Awdurdod Tân, Costau Ariannu Cyfalaf a Chynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor), dim ond 14% (£29.6m) sydd yn weddill ar gyfer holl wasanaethau eraill y Cyngor.

# 4. Y Cyd-destun Economaidd, Ariannol a Deddfwriaethol Allanol

## 4.1 Yr Amgylchedd Economaidd

Gosodir rhagolygon ariannol y Cyngor yng nghyd-destun yr economi genedlaethol, cynlluniau gwariant cyhoeddus Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, a deddfwriaeth a rheoliadau cenedlaethol. Cânt eu llunio o fewn cyfnod heriol parhaus i'r economi genedlaethol yn sgil yr argyfwng costau byw, y Rhyfel yn Wcráin a datblygiadau daearwleidyddol yn y Dwyrain Canol. Mae hyn oll mewn cyfnod pan fu mesurau llymder sylweddol ar waith am y degawd blaenorol a mwy ers yr argyfwng ariannol yn 2008 a phan fo effeithiau'r pandemig COVID-19 yn dal i'w gweld.

Mae'r Trysorlys a'r rhagolygon allanol yn rhagweld cyfnod anwastad ar gyfer twf economaidd oherwydd y ffactorau a ddisgrifiwyd eisoes ac mae hyn yn darparu cefndir heriol i'r sector cyhoeddus ac felly cyllideb y Cyngor gan fod y twf economaidd cenedlaethol (a fesurir drwy'r Cynnyrch Domestig Gros (GDP)) yn wan iawn.

## 4.2 Chwyddiant

Mae Adroddiad Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr ar gyfer Awst 2025 yn cynnwys y sylwebaeth a'r rhagamcanion canlynol ar gyfer chwyddiant:

*"Twelve-month CPI inflation increased to 3.5% in 2025 Q2, owing to developments in energy, food and administered prices. Pay growth remains elevated, but has declined further recently, and is still expected to slow significantly over the rest of the year. Services consumer price inflation has been broadly flat over recent months...*

*…CPI inflation is forecast to increase slightly further to peak at 4.0% in September. Inflation is expected to fall back thereafter towards the 2% target, although the Committee remains alert to the risk that this temporary increase in inflation could put additional upward pressure on the wage and price-setting process. Overall, the MPC judges that the upside risks around medium-term inflationary pressures have moved slightly higher since May [2025]."*

**Tabl 1: Rhagolwg Blynyddol o'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan Bwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr**


| | Awst 2025 Gwirioneddol | Chwarter 3 2025 Rhagolwg | Chwarter 3 2026 Rhagolwg | Chwarter 3 2027 Rhagolwg | Chwarter 3 2028 Rhagolwg |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhagolwg Blynyddol o Chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr | 3.8% | 3.8% | 2.7% | 2.0% | 2.0% |

Mae'r lefelau uchel parhaus o chwyddiant yn yr economi'n erydu pŵer gwario'r Cyngor, hyd yn oed fwy felly pan nad yw setliadau cyllid gan Lywodraeth Cymru'n cwrdd â'r chwyddiant a brofir. Gwelir effaith hyn yn bennaf yn y lefelau uwch o ddyfarniadau cyflog i staff wrth i'r undebau lobïo am gyflogau uwch i helpu staff i dalu'r costau byw uwch, costau ynni uwch a chwyddiant mewn prisiau contractau wrth gyrraedd dyddiadau penblwydd contractau mwy sy'n nodi y bydd cynnydd blynyddol yn unol â Mynegai Prisiau Defnyddwyr / Mynegai Prisiau Manwerthu ac ati.

## 4.3 Cyfraddau Llog

Mewn ymateb i lefelau uchel parhaus o chwyddiant, mae Banc Lloegr wedi cynyddu'r gyfradd llog sylfaenol yn sylweddol yn ystod 2022 a 2023 i 5.25% ym mis Awst 2023, i fyny o'i chyfradd isaf o 0.1% ym mis Rhagfyr 2021. Ers y gyfradd uchaf ym mis Awst 2023, gwnaed gostyngiadau yn raddol i lawr i'r gyfradd bresennol o 4.00% ym mis Awst 2025. Mae cynghorwyr y Cyngor ynghylch y Trysorlys yn rhagweld y bydd y gyfradd sylfaenol yn lleihau'n raddol i 3.50% erbyn mis Medi 2026, a bydd yn parhau ar y lefel honno am weddill cyfnod eu rhagolygon (tan fis Mehefin 2027).

Caiff rhagolygon ynghylch cyfraddau llog eu hadrodd i'r Cyngor yn rheolaidd drwy adroddiadau chwarterol ynghylch Rheoli'r Trysorlys.




Wrth i gyfraddau llog gwympo bydd yn cael effaith ar yr incwm buddsoddi a geir ar falansau arian, er bydd y Cyngor yn parhau i reoli ei weithgareddau rheoli'r trysorlys mewn ffordd gyfannol er mwyn cyfyngu gymaint â phosib ar yr effaith ariannol ar y cyllidebau sy'n gysylltiedig â'r Trysorlys.

## 4.4 Cyflog Byw Gwirioneddol i Weithwyr Gofal


Mae Llywodraeth Cymru'n parhau â pholisi cenedlaethol sy'n sicrhau y bydd gweithwyr Gofal Cymdeithasol yng Nghymru yn cael eu talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf. Caiff y Cyflog Byw Gwirioneddol ei gyfrifo'n annibynnol gan y 'Resolution Foundation' a'i oruchwylio gan y Comisiwn Cyflog Byw ac ar hyn o bryd mae'n £12.60 yr awr, sydd 5% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol a 39c yn uwch na'r Cyflog Byw Cenedlaethol presennol sy'n £12.21. Mae'n berthnasol i weithwyr cofrestredig mewn cartrefi gofal a gofal yn y cartref, ac mae hefyd yn cynnwys cynorthwywyr personol sy'n darparu gofal a chymorth sy'n cael ei ariannu drwy daliad uniongyrchol. Bydd yn rhaid i ystyriaethau o ran y cynnydd blynyddol yn y ffioedd ar gyfer Darparwyr Gofal Cymdeithasol ystyried unrhyw newidiadau i'r Cyflog Byw Gwirioneddol, ar yr amod bod digon o gyllid yn cael ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Er i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cyllid blynyddol rheolaidd o tua £70m i gyflawni'r ymrwymiad hwn, mae risg parhaus na fydd yr arian a dderbynnir (trwy'r Grant Cynnal Refeniw (RSG)) yn cael ei gynnal ar lefel ddigonol wrth i'r Cyflog Byw Gwirioneddol gynyddu yn y blynyddoedd i ddod.

## 4.5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn bodoli i wneud i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl, gyda chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau a defnyddio dull mwy cydgysylltiedig o weithio. Mae'r ddyletswydd llesiant o dan y Ddeddf yn golygu bod yn rhaid i ni gymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio i bopeth a wnawn a sicrhau bod ein gwaith yn cyd-fynd â'r saith Nod Llesiant Cenedlaethol.  Mae'n ofynnol i bob gwasanaeth weithredu'r Ddeddf, gan sicrhau bod y cynlluniau trawsnewid ac arbedion effeithlonrwydd yn cydymffurfio â'r ddyletswydd llesiant.

**Dyma'r Pum Ffordd o Weithio:**



| | |
|---|---|
| Hirdymor | Osgoi tymor byr ac ystyried sut y bydd penderfyniadau'n effeithio ar les cenedlaethau'r dyfodol yn ogystal â'r cenedlaethau presennol |
| Atal | Gweithredu'n gynnar - mynd i'r afael ag achos sylfaenol problemau cyn iddo gynyddu neu waethygu. Bydd hyn yn arwain at ganlyniadau gwell i unigolion, cyrff cyhoeddus a'r gymdeithas gyfan. |
| Integreiddio | Sicrhau bod yr ystod lawn o ganlyniadau gweithred yn cael eu hystyried fel bod gweithgaredd yn un maes gwaith y gellir ei lunio i ategu, yn hytrach na thanseilio'r gweithgareddau mewn eraill. |
| Cydweithio | Gweithio gydag eraill, y tu mewn neu'r tu allan i'ch tîm neu'ch sefydliad, fel y gellir bodloni cymaint o amcanion â phosibl gyda'r adnoddau a'r arbenigedd sydd ar gael. |
| Cynnwys | Deall manteision cynnwys ystod mor eang â phosibl o bobl wrth helpu i lunio'r penderfyniadau a'r gwasanaethau a fydd yn effeithio ar eu bywydau. |

## 4.6 Rheoleiddwyr Allanol

Mae'r Cyngor yn cael ei arolygu gan nifer o reoleiddwyr allanol gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru, Estyn ac Archwilio Cymru. Yn ystod y 18 mis diwethaf, gwnaed nifer sylweddol o arolygon allanol o'r Cyngor gan naill ai rheoleiddwyr allanol neu drwy ddulliau annibynnol eraill. Ar y cyfan, mae'r rhain wedi bod yn gadarnhaol iawn ac wedi canmol perfformiad y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

Daeth Adolygiad o Berfformiad gan Banel Cymheiriaid i'r casgliad canlynol:

*'Ceir tystiolaeth gref bod y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol', ac 'o ystyried y galw mawr am wasanaethau ar hyn o bryd a'r pwysau ariannol hynod heriol, mae Cyngor Sir Ceredigion yn awdurdod lleol sy'n cael ei redeg yn dda' a bod 'y Cyngor wedi sefydlu ac wrthi'n datblygu meysydd o arloesedd gan gynnwys Canolfannau Lles, TGCh, a gweithio hybrid'.*

Daeth Estyn i'r casgliad canlynol:

*'Mae Ceredigion wedi sicrhau darpariaeth addysgol sefydlog o safon uchel i ddysgwyr, a hynny dros gyfnod estynedig. Mae hyn yn bennaf oherwydd arweinyddiaeth gadarn; strategaethau ac uchelgeisiau clir a bwriadus; a chydweithio agos ymysg swyddogion yr awdurdod, aelodau etholedig, ysgolion a phartneriaid eraill'.*

Nododd Archwilio Cymru'r canlynol:

*'Mae gan y Cyngor hanes cryf o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio a mynd i'r afael â'i bwysau cyllidebol' ac 'Mae'r Cyngor yn defnyddio ei gronfeydd wrth gefn mewn ffordd gynlluniedig a strategol' ac 'Mae'r Cyngor wedi gwneud penderfyniadau i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr i'r tymor canolig'.*

# 5. Ffactorau Cenedlaethol a Lleol

### 5.1 Y Sefyllfa Wleidyddol

Mae nifer o ffactorau gwleidyddol allanol sy’n debygol o ddylanwadu ar sefyllfa ariannol y Cyngor a / neu’r penderfyniadau fydd yn ei wneud yn y dyfodol, gan gynnwys:


- Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026/27
- Etholiadau Senedd Cymru ym mis Mai 2026
- Cyllideb Canghellor y Deyrnas Unedig yn ystod hydref 2025
- Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2027

### 5.2 Cyllid Llywodraeth Cymru


Asesiadau Gwariant Safonol (AGS) yw'r mecanwaith a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer dosbarthu adnoddau i awdurdodau lleol yn seiliedig ar gyfrifiad o'r hyn y mae angen i bob Awdurdod Lleol ei wario i ddarparu lefel safonol o wasanaethau ar gyfradd gyffredin o dreth y cyngor. Mae fformiwlâu’r Asesiadau Gwariant Safonol yn cael eu hadolygu drwy'r Is-grŵp Dosbarthu. Mae dyraniad yr Asesiadau Gwariant Safonol yn defnyddio tua hanner cant o fformiwlâu sy'n adlewyrchu nodweddion demograffig, ffisegol, economaidd a chymdeithasol. Mae hefyd yn adlewyrchu costau cymharol darparu gwasanaethau tebyg rhwng awdurdodau. O ganlyniad, mae'r fformiwlâu yn ystyried ffactorau megis poblogaeth, nifer y plant ac oedolion hŷn, hyd y ffyrdd, a yw’r ardal yn wledig a pha mor wasgaredig yw’r boblogaeth. Mae'r Llyfr Gwyrdd yn gydymaith ystadegol i Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol. Mae'n darparu gwybodaeth gefndirol ar gyfer cyfrifo Asesiadau Gwariant Safonol ar gyfer setliad refeniw blynyddol llywodraeth leol.

Mae tua 69% o'r gyllideb net yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy gyfuniad o Grant Cynnal Refeniw ac ailddosbarthu Ardrethi Annomestig Cenedlaethol a chyfeirir atynt gyda'i gilydd fel Cyllid Allanol Cyfun (AEF). Gall Awdurdodau Lleol wneud cais am gyllid penodol ychwanegol drwy ffrydiau grant Llywodraeth Cymru. Mae tua £45 miliwn arall o gyllid grant ar gyfer gwasanaethau penodol yn cael ei dderbyn bob blwyddyn i ddarparu a chefnogi llawer o wasanaethau refeniw a chynlluniau / prosiectau cyfalaf y Cyngor.


Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r fformiwla ar gyfer dosbarthu cyllid i Awdurdodau Lleol trwy'r Cyllid Allanol Cyfun wedi tueddu i roi setliadau mwy ffafriol i awdurdodau mwy trefol yn ne ddwyrain y wlad, gyda Chasnewydd, Caerdydd ac Abertawe yn derbyn cynnydd o 5.6%, 5.3% a 4.8% yn y Cyllid Allanol Cyfun ar gyfer 2025/26 yn y drefn honno, tra bod siroedd mwy gwledig fel Ceredigion, Conwy a Gwynedd wedi derbyn setliadau o 3.8% sef cyfradd y cyllid gwaelodol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn y setliad ar gyfer 2025/26. Derbyniodd 9 awdurdod gyllid gwaelodol o 3.8% o ran eu setliad:





Wrth edrych ar Setliadau Cyllid Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru dros gyfnod hwy gwelir sefyllfa debyg, gyda'r siart canlynol yn dangos lefel y cynnydd a gafodd pob Awdurdod Lleol yng Nghymru dros y 12 mlynedd ddiwethaf, ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae'r Cyngor wedi gwneud £70m o arbedion.




Yn hanesyddol, mae cymhareb cyllido Ceredigion (a elwir hefyd yn 'cymhareb gerio') wedi mynd o ychydig o dan 80:20 yn 2013/14 i ychydig o dan 70:30 yn 25/26. Mae'n debygol iawn y bydd y tuedd hwn yn parhau tuag at 60:40 o fewn y degawd nesaf.




Mae cymhareb gerio pob Cyngor yn wahanol, dyma'r sefyllfa genedlaethol gan ddefnyddio data cyllideb 25/26:



Mae'r graff isod yn dangos setliad Cyllid Allanol Cyfun y Cyngor dros y 10 mlynedd ddiwethaf ac mae'n dangos bod setliad Ceredigion wedi bod yn is na chwyddiant (Mynegai Prisiau Defnyddwyr) am y rhan fwyaf o'r cyfnod hwnnw.




**5.3 Treth y Cyngor**

Mae data cymharol ar lefelau Treth y Cyngor Awdurdodau Cymru ar gael ar wefan Ystadegau Cymru gan ddefnyddio'r dolenni canlynol:-

https://gov.wales/council-tax-levels | /https://llyw.cymru/lefelaur-dreth-gyngor


Yn hanesyddol, mae Band D wedi cael ei ddefnyddio fel y safon ar gyfer cymharu lefelau Treth y Cyngor rhwng ac ar draws awdurdodau lleol. Nid yw'r mesur hwn yn cael ei effeithio gan y dosbarthiad amrywiol o eiddo mewn bandiau sydd i'w gweld ar draws awdurdodau.

Ar gyfer 2025/26 bil blynyddol Treth y Cyngor ar gyfer eiddo Band D yng Ngheredigion o ganlyniad i gynnydd o 9.3% yw £2,296, sydd hefyd yn cynnwys praesept y Cynghorau Tref a Chymuned ac Awdurdod yr Heddlu. Ar gyfartaledd, mae elfen y Cyngor Sir o fil Treth y Cyngor ar gyfer eiddo Band D yng Ngheredigion yn £1,887. Mae'r tabl isod yn dangos y cynnydd cyfartalog ym miliau Treth y Cyngor ar gyfer eiddo Band D mewn ystod o senarios gwahanol o ran lefel y cynnydd yn Nhreth y Cyngor:

**Tabl 2: Costau Blynyddol / Misol / Wythnosol ar gyfer amrywiaeth o Senarios o ran lefel y cynnydd yn Nhreth y Cyngor:**

| | Cynnydd yn Nhreth y Cyngor | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **1%** | **5%** | **7.5%** | **10%** | **12.5%** |
| **Blynyddol** | £18.87 | £94.35 | £141.53 | £188.70 | £235.88 |
| **Misol** | £1.57 | £7.86 | £11.79 | £15.73 | £19.66 |
| **Wythnosol** | £0.36 | £1.81 | £2.72 | £3.63 | £4.54 |

£2,170 yw cyfartaledd Treth y Cyngor ar gyfer eiddo Band D yng Nghymru. Mae'r siart isod yn dangos y cyfartaledd o ran eiddo Band D ar gyfer pob Cyngor yng Nghymru.




Er mai Band D yw'r metrig a ddefnyddir i gymharu'n genedlaethol, bydd gan bob Cyngor sylfaen wahanol o ran eiddo. Yng Ngheredigion, mae'r nifer fwyaf o eiddo yn dod o dan Fand E ac mae 67% yn dod o dan Fandiau C, D ac E:

**Tabl 3: Nifer yr Anheddau yng Ngheredigion yn ôl Band Treth y Cyngor**

| Band | Nifer yr Anheddau yng Ngheredigion (Fel yr oedd ar 31/10/24) | Cyfran |
|---|---|---|
| A | 1,612 | 5% |
| B | 4,635 | 14% |
| C | 7,303 | 21% |
| D | 7,180 | 21% |
| E | 8,586 | 25% |
| F | 3,601 | 11% |
| G | 933 | 3% |
| H | 100 | 0% |
| I | 20 | 0% |
| **CYFANSWM** | **33,970** | **100%** |

Ar wahân i Geredigion, nid oes unrhyw awdurdod arall yng Nghymru sydd â'r nifer fwyaf o'i eiddo yn dod o dan fand sy'n uwch na Band D. Er enghraifft, ym Merthyr Tudful mae 75% o'r eiddo yn dod o dan naill ai Band A neu Fand B, ac ym Mlaenau Gwent mae 82% o'r eiddo yn dod o dan Fand A neu Fand B.

**Tabl 4: Y Bandiau â'r nifer uchaf o eiddo ar gyfer pob Awdurdod Lleol yng Nghymru**

| Awdurdod Lleol | Band Mwyaf | |
|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 58% | A |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 23% | B |
| Caerffili | 33% | B |
| Caerdydd | 23% | D |
| Sir Gâr | 27% | B |
| Ceredigion | 25% | E |
| Conwy | 27% | C |
| Sir Ddinbych | 32% | C |
| Sir y Fflint | 29% | C |
| Gwynedd | 25% | B |
| Ynys Môn | 21% | D |
| Merthyr Tudful | 51% | A |
| Sir Fynwy | 21% | D |
| Castell-nedd Port Talbot | 41% | B |
| Casnewydd | 26% | C |
| Sir Benfro | 23% | C |
| Powys | 20% | C |
| Rhondda Cynon Taf | 42% | A |
| Abertawe | 25% | B |
| Torfaen | 30% | B |
| Bro Morgannwg | 23% | C |
| Wrecsam | 28% | C |
| **Cyfartaledd** | **22%** | **C** |

Dyma'r cynnydd hanesyddol yn Nhreth y Cyngor, ochr yn ochr â'r cynnydd yn y Cyllid Allanol Cyfun gan Lywodraeth Cymru:

**Tabl 5: Y Cynnydd Hanesyddol yn Nhreth y Cyngor**

| Blwyddyn | Treth y Cyngor (elfen Ceredigion) | Cyfradd Chwyddiant Ceredigion | Cynnydd yng Nghyllid Allanol Cyfun Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|---|
| 2020/21 | 4.0% | 5.8% | 5.4% |
| 2021/22 | 3.5% | 4.3% | 1.9% |
| 2022/23 | 2.5% | 8.0% | 8.9% |
| 2023/24 | 7.3% | 13.4% | 8.1% |
| 2024/25 | 11.1% | 10.3% | 2.9% |
| 2025/26 | 9.3% | 6.8% | 3.8% |

## 5.4 Premiymau Treth y Cyngor (Eiddo Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi)

Mae mynd i'r afael ag ail gartrefi, perchnogaeth tai gwyliau a throsi eiddo preswyl i dai gwyliau yn flaenoriaeth allweddol yn Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 a gymeradwywyd gan y Cyngor. Mae hyn ynghyd â chynyddu'r cyflenwad a'r ystod o opsiynau ar gyfer tai fforddiadwy yng Ngheredigion yn rhan allweddol o'r Amcan Llesiant Corfforaethol – 'Creu Cymunedau Cynaliadwy a Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i Gilydd'.

I gefnogi'r amcan hwn, cytunodd y Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr 2023 y byddai newidiadau'n cael eu gwneud i'r premiwm presennol o 25% ar Dreth y Cyngor ar gyfer Eiddo Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi. Mae'r tablau isod yn crynhoi'r newidiadau hyn.

**Tabl 6: Premiwm Treth y Cyngor – Ail Gartrefi**

| Y dyddiad y daeth i rym | Premiwm |
|---|---|
| 1 Ebrill 2024 | 100% |
| 1 Ebrill 2025 ac wedi hynny | 150% |

**Tabl 7: Premiwm Treth y Cyngor – Eiddo Gwag Hirdymor (daeth i rym ar 1 Ebrill 2024)**

| Y cyfnod fu'r eiddo'n wag* | Premiwm |
|---|---|
| Hyd at ac yn cynnwys 5 mlynedd | 100% |
| O 5 mlynedd hyd at ac yn cynnwys 10 mlynedd | 150% |
| Dros 10 mlynedd | 200% |

* *Mae pob cyfnod yn cynnwys y cyfnod parhaus cychwynnol o 12 mis sy'n arwain at ddiffinio annedd fel 'Eiddo Gwag Hirdymor' oherwydd ei fod yn wag a heb ddodrefn i bob pwrpas.*

Yn y Gyllideb ar gyfer 2024/25, cytunodd yr Aelodau y byddai'r canlynol yn digwydd o 01/04/24 ymlaen:

- Dylai 25% o'r holl arian a godwyd o Bremiymau Treth y Cyngor ar gyfer Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor (cyfanswm net ar ôl costau / ad-daliadau Treth y Cyngor) gael ei neilltuo a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol, ar yr amod na fydd lefel yr arian yn y Cynllun Tai Cymunedol yn uwch na £2.0m ar unrhyw adeg ac y byddai unrhyw gyllid y tu hwnt i'r lefel hwn yn ystod unrhyw flwyddyn yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo gyda sefyllfa'r gyllideb yn gyffredinol.
- Dylai 75% o'r holl arian a godwyd o Bremiymau Treth y Cyngor ar gyfer Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor (cyfanswm net ar ôl costau / ad-daliadau Treth y Cyngor) gael ei gadw i gynorthwyo gyda sefyllfa'r gyllideb yn gyffredinol er mwyn lleihau baich Treth y Cyngor ar breswylwyr Ceredigion.

Y balans yn y gronfa wrth gefn ar gyfer y Cynllun Tai Cymunedol ar 31/03/25 oedd £2.194m. Cynllun a weithredir gan y Cyngor yw'r Cynllun Tai Cymunedol sy'n cynorthwyo preswylwyr lleol i brynu tai yn y Sir drwy ddarparu benthyciadau di-log gydag ecwiti a rennir – gellir cael rhagor o wybodaeth yma: Y Cynllun Tai Cymunedol - Cyngor Sir Ceredigion.

## 5.5 Ffioedd a Thaliadau

Mae swm sylweddol o incwm (£36m) yn cael ei dderbyn bob blwyddyn drwy Ffioedd a Thaliadau a ddefnyddir i gynorthwyo i ariannu gwasanaethau. Mae'r ffioedd hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol yng nghyd-destun sefyllfa ariannol y Cyngor a chan gyfeirio at Bolisi Rheoli Incwm ac Adfer Costau Gwasanaethau'r Cyngor. Dylid nodi bod rhai o'r ffioedd wedi'u gosod ar sail statudol gan gyrff eraill, felly nid oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth ar lefel y ffioedd hyn.

## 5.6 Ardoll Ddewisol Ymwelwyr

Ar 8 Gorffennaf 2025, cymeradwyodd y Senedd Fil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) a fydd yn caniatáu i awdurdodau lleol yng Nghymru gyflwyno ardoll ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr i godi arian i gefnogi twristiaeth leol. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl y gallai'r ardoll godi hyd at £33 miliwn y flwyddyn ar draws Cymru. Mae amcangyfrif dangosol cynnar yn awgrymu y gallai godi rhwng £1.5m a £2m yng Ngheredigion.

Byddai unrhyw arian a godir drwy'r ardoll yn cael ei glustnodi ond byddai'n galluogi i arian gael ei fuddsoddi mewn seilwaith twristiaeth megis toiledau, llwybrau troed, traethau, a chanolfannau ymwelwyr. Penderfyniad pob Cyngor yn unigol fydd dewis cyflwyno'r ardoll ai peidio, ac mae'r ddeddfwriaeth yn nodi bod yn rhaid i Gynghorau ymgynghori â chymunedau lleol cyn cyflwyno'r ardoll yn ogystal â rhoi cyfnod rhybudd o 12 mis cyn cyflwyno'r ardoll. Os dewisir cyflwyno'r ardoll ymwelwyr, codir yr ardoll fesul person fesul noson ar gyfer llety dros nos, a phennwyd y gyfradd yn genedlaethol fel a ganlyn:

- £0.75 fesul person fesul noson ar gyfer y sawl sy'n aros mewn meysydd gwersylla (lleiniau) a hostelau, ac eithrio pobl o dan 18 oed
- £1.30 fesul person fesul noson ar gyfer y rheiny sy'n aros mewn pob math arall o lety ar gyfer ymwelwyr (pob oed)

Bydd cofrestru pob darparwr llety i ymwelwyr yng Nghymru yn dechrau yn 2026. Y cynharaf y gall awdurdod lleol gyflwyno ardoll yw mis Ebrill 2027, ar yr amod bod penderfyniad terfynol i fwrw ymlaen â'i gyflwyno yn cael ei wneud cyn mis Ebrill 2026, yn dilyn cyfnod o ymgynghori â'r cyhoedd (gan gynnwys ymgyngoreion gorfodol penodol fel y nodir yn Adran 47(6) y Bil).

Hyd yn hyn, nid yw'r Cyngor wedi penderfynu'n ffurfiol ynghylch ystyried cyflwyno'r ardoll ai peidio. Byddai Awdurdod Refeniw Cymru'n casglu ac yn gweinyddu'r ardoll yn genedlaethol ar ran awdurdodau lleol, felly bach iawn fyddai'r baich gweinyddol.

### 5.7 <u>Diwygio Treth y Cyngor / Ardrethi Annomestig</u>

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiwygio Treth y Cyngor ac Ardrethi Annomestig. Er bod Llywodraeth Cymru wedi dweud nad yw hyn yn ymwneud â chodi mwy o refeniw, mae risg y bydd Cynghorau unigol ar eu colled – er enghraifft, ar gyfartaledd mae eiddo yng Ngheredigion mewn bandiau uwch na nifer o awdurdodau yn ne Cymru.

Ym mis Gorffennaf 2024, pasiodd y Senedd Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024. Mae'r ddeddf hon yn gosod y seiliau ar gyfer y diwygiadau arfaethedig. Mae'r prif ddiwygiadau yn cynnwys y canlynol:

<u>Treth y Cyngor</u>

- sefydlu cylch pum mlynedd o ailbrisio eiddo o fis Ebrill 2028 ymlaen, a chaniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio blynyddoedd ailbrisio yn y dyfodol pe bai amgylchiadau'n gwneud hynny'n ofynnol.
- darparu mwy o hyblygrwydd ar gyfer trefnu a labelu bandiau treth pan fo angen, i gyd-fynd ag ailgynllunio'r system yn y dyfodol.
- sicrhau parhad Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor yn genedlaethol, gan ddarparu cymorth ariannol hanfodol i aelwydydd incwm isel.

Ardrethi Annomestig

- cynyddu pa mor aml y caiff gwerthoedd pob eiddo annomestig yng Nghymru eu diweddaru i unwaith bob tair blynedd.
- darparu mwy o hyblygrwydd ar gyfer newid rhyddhadau ac esemptiadau.
- dod â threfniadau osgoi treth hysbys i ben a chynyddu'r gallu i fynd i'r afael ag achosion o'r fath mewn ffordd fwy ymatebol yn y dyfodol.

Er bod Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriadau unigol ar faterion penodol iawn ar hyn o bryd, ni fydd Diwygio Treth y Cyngor yn ehangach yn cael ei ystyried ymhellach tan ar ôl etholiadau Senedd Cymru ym mis Mai 2026.

**5.8 Y Pwysau o ran Costau**

Mae'r Cyngor yn wynebu cynnydd blynyddol yn ei gostau gweithredu er mwyn cynnal yr un lefel o wasanaethau. Ar ben hynny, ceir pwysau o ran costau sy'n codi o alwadau ychwanegol sy'n ymwneud â demograffeg a'r hyn sy'n statudol ei natur ac felly nid oes modd eu hosgoi.

Cyrhaeddodd chwyddiant ei benllanw yn 23/24, pan oedd ffigwr chwyddiant o 13.4% yng Ngheredigion yn cael effaith ar gyllideb y Cyngor. Mae disgwyl y bydd y gostyngiad yn ffigurau chwyddiant Ceredigion yn arwain at bwysau o tua £9m i £10m o ran costau. Mae hyn yn dibynnu ar weld dyfarniadau cyflog yn parhau i ostwng o lefelau uchel gan fod yn nes at lefelau chwyddiant mwy nodweddiadol y CPI.

**Tabl 8: Y Pwysau Hanesyddol o ran Costau**

| | ***Cyllideb Net y Cyngor £m*** | **Chwyddiant RPI Ebrill** | **Y Pwysau o ran Costau yn y Gyllideb £m** | **Cyfradd Chwyddiant Ceredigion** |
|---|---|---|---|---|
| 2020/21 | £151.2m | 1.5% | **£8.3m** | **5.8%** |
| 2021/22 | £154.7m | 2.9% | **£6.5m** | **4.3%** |
| 2022/23 | £165.8m | 11.1% | **£12.3m** | **8.0%** |
| 2023/24 | £180.1m | 11.4% | **£22.2m** | **13.4%** |
| 2024/25 | £193.6m | 3.3% | **£18.6m** | **10.3%** |
| 2025/26 | £209.2m | 4.5% | **£13.1m** | **6.8%** |

Mae'r canlynol yn rhoi amcangyfrif dangosol o'r pwysau lefel uchel sy'n wynebu'r Cyngor yn ystod cyfnod y strategaeth, ynghyd â manylion y rhagdybiaethau a ddefnyddir yn ein prosesau cynllunio ariannol.

**Tabl 9: Amcangyfrif o'r Pwysau o ran Costau**

| | ***Nodyn*** | **2026/27 £m** | **2027/28 £m** | **2028/29 £m** | **2029/30 £m** | **2030/31 £m** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyfarniad Cyflog APT&C * | *1* | 2.9 | 2.7 | 2.8 | 2.6 | 2.3 |
| Dyfarniad Cyflog Athrawon (gan gynnwys Soulbury) | *2* | 1.5 | 1.2 | 1.2 | 1.2 | 1.1 |
| Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor | *8* | 0.6 | 0.6 | 0.7 | 0.7 | 0.8 |
| Cyllid Cyfalaf | | 0.2 | 0.2 | 0.2 | 0.2 | 0.2 |
| Ardoll Tân | *3* | 0.2 | 0.2 | 0.2 | 0.3 | 0.3 |
| Materion sy'n ymwneud â Llesiant Gydol Oes | *4,5* | 3.7 | 3.7 | 3.3 | 3.3 | 3.4 |
| Materion sy'n ymwneud ag Addysg | | 0.4 | 0.3 | 0.3 | 0.3 | 0.3 |
| Materion sy'n ymwneud â'r Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol | *6* | 0.3 | 0.5 | 0.5 | 0.4 | 0.4 |
| Arall | *7* | 0.3 | 0.2 | 0.3 | 0.2 | 0.3 |
| **Cyfanswm** | | **10.1** | **9.6** | **9.4** | **9.1** | **9.0** |

## Nodiadau i gyd-fynd â Thabl 9

***Nodyn 1: Dyfarniad Cyflog yr NJC (bob mis Ebrill)***

*Mae rhagdybiaethau ynghylch dyfarniadau cyflog yn arbennig o ansicr gan fod chwyddiant yn parhau'n uchel a bod patrwm diweddar o beidio â gwneud penderfyniadau cyn dechrau blynyddoedd ariannol. Gan ystyried yr amodau economaidd cyffredinol a chan gyfeirio at y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol, mae'r rhagdybiaethau canlynol wedi'u defnyddio:*

| | |
|---|---|
| ***2026/27*** | *+ 2.75% i bob Pwynt ar y Raddfa* |
| ***2027/28*** | *+ 2.50% i bob Pwynt ar y Raddfa* |
| ***2028/29*** | *+ 2.50% i bob Pwynt ar y Raddfa* |
| ***2029/30*** | *+ 2.25% i bob Pwynt ar y Raddfa* |
| ***2030/31*** | *+ 2.00% i bob Pwynt ar y Raddfa* |

*Y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol sy'n penderfynu ar Ddyfarniadau Cyflog yr NJC ar draws Cymru a Lloegr yn flynyddol ac mae hyn yn cynnwys ymgynghori'n ffurfiol ag undebau'r sector cyhoeddus. Mae'r Cyngor yn gweithredu canlyniad y cytundeb cenedlaethol ar gyfer y staff sy'n dod o dan yr NJC.*

*Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth ariannol wedi'i gwneud ar gyfer unrhyw effaith sy'n deillio o'r ymarfer Modelu Cyflogau ar draws strwythur graddfeydd llawn yr NJC a gefnogwyd gan y Cyngor Llawn ar 17/07/25.*

***Nodyn 2: Dyfarniad Cyflog Athrawon (bob mis Medi) / Pensiwn Athrawon***

*Mae rhagweld dyfarniadau cyflog yn y dyfodol yn anodd ac felly ceir llawer iawn o ansicrwydd. Gan ystyried yr amodau economaidd presennol, defnyddiwyd y rhagdybiaethau canlynol ar gyfer Cyflogau Athrawon:*

| | |
|---|---|
| ***2026/27*** | *+ 2.75% i bob Pwynt ar y Raddfa* |
| ***2027/28*** | *+ 2.50% i bob Pwynt ar y Raddfa* |
| ***2028/29*** | *+ 2.50% i bob Pwynt ar y Raddfa* |
| ***2029/30*** | *+ 2.25% i bob Pwynt ar y Raddfa* |
| ***2030/31*** | *+ 2.00% i bob Pwynt ar y Raddfa* |

*Tybir y bydd swyddogion Soulbury yn derbyn dyfarniad cyflog yn unol â dyfarniad cyflog yr APT&C. Mae dyfarniadau Cyflog Athrawon yn cael eu pennu gan Lywodraeth Cymru a dyma yw'r dyfarniad cyflog cenedlaethol ar draws Cymru gyfan. Mae'r Cyngor yn gweithredu canlyniad y cytundeb cenedlaethol hwnnw ar gyfer ei Athrawon. Tybir hefyd y byddai cyllid penodol ychwanegol yn cael ei ddarparu i gynorthwyo â Chyllideb Ddirprwyedig yr Ysgolion pe byddai Llywodraeth Cymru yn pennu cyflogau athrawon yn uwch na lefelau arferol chwyddiant a/neu pe byddai'n uwch na lefelau Dyfarniad Cyflog yr NJC.*

***Nodyn 3: Ardoll Tân***

*Disgwylir cynnydd blynyddol. Mae cynnydd blynyddol o 4% wedi'i dybio sy'n unol â'r hyn sydd wedi digwydd yn ddiweddar a'r disgwyliadau o ran chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI).*

***Nodyn 4: Llesiant Gydol Oes***

*Mae Gofal Cymdeithasol yn faes lle mae pwysau parhaol ar y gyllideb. Mae hyn am fod y boblogaeth yn heneiddio a bod cymhlethdod yr achosion wedi dwysáu ers pandemig COVID. Yn benodol, bydd angen cynnydd blynyddol mewn cyllid ar gyfer Gwasanaethau a Gomisiynir yn allanol i sicrhau bod y Gwasanaethau hynny yn parhau'n gynaliadwy gan fod y 3ydd sector a'r Darparwyr Preifat yn parhau'n rhan allweddol o'r gwasanaethau a ddarperir yng Ngheredigion. Y newid blynyddol yn y Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol fydd yn bennaf gyfrifol am y cynnydd blynyddol hwn. Mae disgwyl y bydd pwysau o ran costau yn parhau mewn meysydd megis lleoliadau preswyl i bobl hŷn, lleoliadau ar gyfer Plant ar eu Pen eu hunain sy'n Ceisio Lloches, costau'r Asiantaeth Faethu Annibynnol (IFAs), lleoliadau preswyl ym maes iechyd meddwl a lleoliadau a chymorth ym maes anableddau dysgu.*

***Nodyn 5: Galw a Newidiadau yn y Ddemograffeg***

*Mae Adran 6 o'r Strategaeth yn amlinellu'r newidiadau eang yn y ddemograffeg y mae'r Sir yn eu hwynebu. Mae ceisio amcangyfrif goblygiadau newidiadau o'r fath ar gostau yn y dyfodol yn anodd ond mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi nodi pwysau blynyddol o ran costau yn y gwasanaethau Llesiant Gydol Oes lle gwelir y pwysau hwn ar ei uchaf. Mae amcanestyniadau o'r galwadau lefel uchel wedi'u modelu gan ddefnyddio data o'r tueddiadau hanesyddol a rhagwelir newidiadau yn y ddemograffeg o ran y canlynol: Plant sy'n Derbyn Gofal, Lleoliadau y tu allan i'r Sir, Gofal Preswyl a Gofal yn y Cartref.*

***Nodyn 6: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol***

*Bydd nifer o gynlluniau Rheoli Gwastraff yn cael eu cyflwyno yn ystod y tymor byr a'r tymor canolig gan gynnwys y cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a'r cynllun Dychwelyd Ernes. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir i ba raddau y bydd y rhain yn cael effaith ar y gyllideb mewn ffordd gadarnhaol na ffordd negyddol. Mae disgwyl i nifer o gontractau rheoli gwastraff a chludiant ysgolion gael eu hadnewyddu a allai arwain at gostau uwch a bydd angen mynd i'r afael â'r cynnydd mewn costau blynyddol oherwydd chwyddiant o ran y contractau presennol yn y meysydd hyn.*

***Nodyn 7: Arall***

*Mae'r pwysau eraill o ran costau yn cynnwys y seilwaith TGCh, chwyddiant yng nghostau meddalwedd a Lwfansau'r Aelodau.*

***Nodyn 8: Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor***

Mae'r cynllun hwn yn amddiffyn y rheiny sydd ar incwm isel iawn a'r rheiny sy'n hawlio budd-daliadau. Mae'n caniatáu iddynt gael gostyngiad o hyd at 100% ar eu hatebolrwydd o ran Treth y Cyngor mewn rhai amgylchiadau. Mae'n fudd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd, felly bydd y swm y bydd unigolion yn ei dderbyn yn dibynnu ar eu hincwm, eu cyfalaf a'u hamgylchiadau. Mae hyn yn golygu bod hyd yn oed rhywun sy'n gweithio dal yn medru bod yn gymwys i gael rhywfaint o help. Serch hynny, ni fyddai rhywun sydd â chyfalaf o £16,000 neu fwy (heb gynnwys gwerth eu prif gartref) yn gymwys i gael cymorth. Mae Cyfrifiannell Hawl ar gael ar wefan y Cyngor y gall unigolion ei defnyddio i weld a ydynt yn gymwys am gymorth:

https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/budd-daliadau/

Mae cydberthynas uniongyrchol iawn rhwng cynnydd yn Nhreth y Cyngor a'r cynnydd yn y Gyllideb flynyddol y mae ei hangen ar gyfer Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor.

# 6. Demograffeg a thueddiadau eraill

Mae llawer o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn cael eu harwain gan alw a hynny oherwydd newidiadau a thueddiadau ehangach yn y ddemograffeg. Gall y rhain fod yn anodd eu rhagweld ac mae'n anodd mesur eu heffaith ar y cyllidebau dros y tymor hwy. Mae'r prif heriau a thueddiadau o ran demograffeg wedi'u nodi isod.

## 6.1 Demograffeg

Rhagwelir y bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu 10.3% hyd at 2047, gan godi o 3.13 miliwn yn 2022 i 3.46 miliwn yn 2047, yn ôl amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol sy'n seiliedig ar 2022. Dros y cyfnod hwn mae disgwyl i ganran y rhai dros 65 oed yng Nghymru gynyddu o tua 22% i 26% o'r boblogaeth, a rhagwelir y bydd cynnydd o 60% yn y gyfran sy'n 75 oed ac yn hŷn. Rhagwelir y bydd disgwyliad oes yn parhau i gynyddu, er bydd hyn yn digwydd ar gyflymder arafach na'r degawd blaenorol. Ar y llaw arall, yn ystod y cyfnod hwn, rhagwelir y bydd nifer y plant 15 oed ac iau yn gostwng o tua 18% i 14% o'r boblogaeth.

Adeg ysgrifennu'r strategaeth hon, nid yw'r amcanestyniadau o aelwydydd ar gyfer Cymru sy'n seiliedig ar 2022 wedi'u cyhoeddi. Golyga hyn fod yr amcanestyniadau mwyaf diweddar o aelwydydd yn seiliedig ar 2018. Mae'r amcanestyniadau hyn, sy'n cyd-fynd â'r amcanestyniadau poblogaeth sy'n seiliedig ar 2018, yn rhagweld y bydd nifer yr aelwydydd yng Nghymru yn tyfu'n gyflymach na'r boblogaeth yn gyffredinol, gan arwain at aelwydydd llai o faint a'r angen am fwy o gartrefi. Dylid nodi bod yr amcanestyniadau hyn yn seiliedig ar dueddiadau demograffig cyn Cyfrifiad 2021 ac efallai nad ydynt yn adlewyrchu'r newidiadau mwyaf diweddar.

Mae amcangyfrifon poblogaeth Canol Blwyddyn 2024 yn dangos mai 72,599 yw poblogaeth Ceredigion, ffigwr sydd ychydig yn uwch na'r hyn a amcangyfrifiwyd yn 2023 (72,488) ac yng Nghyfrifiad 2021 (71,468).

Mae Ceredigion yn un o bedair sir y disgwylir i'w phoblogaeth ostwng dros yr ugain mlynedd nesaf, o 71,610 yn 2022 i 68,745 yn 2043. Rhagwelir y bydd nifer y plant yng Ngheredigion yn gostwng tua 8%, gostyngiad o 800 erbyn 2043. Gellir priodoli'r dirywiad hwn i'r oedi disgwyliedig mewn cyfraddau ffrwythlondeb yng Ngheredigion, sy'n duedd a welir yn genedlaethol hefyd.

Yn ogystal, mae disgwyl i boblogaeth oedran gweithio Ceredigion ostwng 13% hyd at 2043, gan ostwng o 42,700 i 37,000. Gellir priodoli'r gostyngiad hwn i'r ffaith fod pobl yn allfudo i wahanol rannau o'r Deyrnas Unedig. Mae hyn yn cynnwys cyfran uchel o fyfyrwyr yng Ngheredigion rhwng 21 a 24 oed sy'n tueddu i adael yr ardal ar ôl graddio i chwilio am gyfleoedd gwaith ac addysg mewn mannau eraill.

Ar y llaw arall, mae disgwyl twf yn y rhai dros 65 oed yng Ngheredigion, mae'r gyfran yn debygol o gynyddu o tua 26% i 33% o'r boblogaeth, sef 3,650 o bobl ychwanegol dros ugain mlynedd. Yn ogystal â disgwyliad oes hirach, priodolir y cynnydd yn y grŵp oedran 65+ i'r ffaith fod y garfan, a gafodd eu geni yn ystod y twf sylweddol yn nifer y babanod yn y 1950au a'r 1960au, yn heneiddio, ac y byddant yn 65 oed neu'n hŷn yn 2030.

Bydd y duedd o ran gostyngiad ym mhoblogaeth y Sir yn cael effaith negyddol ar Gyllid Allanol Cyfun y Cyngor gan Lywodraeth Cymru gan fod hwn yn ffactor allweddol yn fformiwla'r Asesiadau o Wariant Safonol (SSA) fel y disgrifir yn adran 5.2.1. Mae poblogaeth sy'n heneiddio hefyd yn anochel ac, yn y pen draw, bydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau Gofal Cymdeithasol gan greu pwysau ychwanegol o ran costau, ni waeth pa mor llwyddiannus yw'r mesurau ymyrraeth gynnar.


Mae amryw o gynlluniau a gweithgareddau ar y gweill i helpu i wrthdroi'r duedd hon o ran y boblogaeth, megis y Cynllun Tai Cymunedol (gyda'r nod o ddarparu cyfleoedd tai fforddiadwy i bobl iau a phrynwyr tro cyntaf), Strategaeth Economaidd Cyngor Sir Ceredigion (sy'n ceisio hyrwyddo'r ystod o lwybrau gyrfa gwerth chweil a rhoi Ceredigion ar y map fel lle gwych i ddechrau a thyfu busnes a chynyddu cyflogau cyfartalog), Tyfu Canolbarth Cymru a Phartneriaeth Sgiliau

Rhanbarthol Canolbarth Cymru (sy’n gweithio i ysgogi buddsoddiad mewn sgiliau yn unol â’r angen lleol) a’r cynnig Gofal Plant (a fydd yn cefnogi teuluoedd â phlant rhwng 3 a 4 oed yng Ngheredigion yn ariannol).

Er gwaethaf y cwymp a ddisgwylir ym mhoblogaeth Ceredigion, mae rhai arwyddion cynnar na fydd y tueddiadau hyn mor ddifrifol ag y rhagwelwyd yn wreiddiol. Mae hyn yn cynnwys amcangyfrifon poblogaeth Canol Blwyddyn 2022 (71,956) sy'n uwch na'r amcanestyniad ar gyfer 2022 (71,151) a'r cynnydd uwch na'r disgwyl mewn mudo net mewnol rhwng 2021 a 2022 (+1,212) sef yr ail uchaf yn genedlaethol.

Yn dilyn hynny, dangosodd amcangyfrifon poblogaeth Canol Blwyddyn 2023 fod poblogaeth Ceredigion wedi cynyddu i 72,488, ac mae amcangyfrifon poblogaeth Canol Blwyddyn 2024, sef y ffigurau diweddaraf, yn dangos bod y boblogaeth wedi cynyddu eto i 72,599. Er bod y newid rhwng 2023 a 2024 yn un cymharol fach (+111), mae’r cynnydd ers 2022 yn un mwy sylweddol, sef cynnydd o 1,488 o bobl (2.0%). Prif ysgogydd y newid yw'r cynnydd mewn mudo mewnol net yn y Deyrnas Unedig (+1,815), ac yna cynnydd mewn mudo rhyngwladol net (+1,247). Roedd newid naturiol sef y gwahaniaeth yn nifer y genedigaethau a nifer y marwolaethau yn parhau i ddangos gostyngiad (-1,127). Serch hynny, tyfu wnaeth y boblogaeth yn gyffredinol.

Hefyd, mae'r amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol ar gyfer Cymru sy’n seiliedig ar 2022 (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2025) yn amcangyfrif twf uwch na'r amcanestyniadau sy’n seiliedig ar 2018. Disgwylir i’r boblogaeth gynyddu ar gyfradd llawer uwch rhwng 2022 a 2032 (5.9%) o'i gymharu â'r degawd blaenorol hyd at 2022 (2.0%). Mudo rhyngwladol sy’n bennaf gyfrifol am y newid hwn. Rhagwelir y bydd newid naturiol yn parhau’n negyddol yn ystod yr un cyfnod.




*Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol - ONS (2025)*

Mae’r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn gwneud rhagor o waith i ddatblygu math arall o ystadegau poblogaeth sef ‘Amcangyfrifon o’r Boblogaeth sy’n seiliedig ar ddata gweinyddol’. Mae Ceredigion yn rhan o grŵp sy’n profi’r ffordd newydd hon o amcangyfrif poblogaeth. Serch hynny, mae heriau ynghlwm wrth y drefn newydd hon o fodelu, yn enwedig o ran cofnodi poblogaeth dros dro myfyrwyr, sy’n berthnasol iawn i Geredigion o gofio pwysigrwydd Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Llanbedr Pont Steffan.

**6.2 Cyflogaeth / Diweithdra**

Gwnaeth y gyfradd gweithgarwch economaidd a'r gyfradd cyflogaeth yng Ngheredigion gynyddu'n sylweddol yn ystod pandemig COVID-19, cyn iddynt ostwng. Serch hynny, ers dechrau 2024, mae’r ddwy gyfradd wedi cynyddu, gan gyrraedd penllanw ym mis Rhagfyr 2024, cyn iddynt ostwng ychydig, er eu bod dal yn agos at y gyfradd uchel a gafwyd adeg y pandemig. Er enghraifft, ym mis Rhagfyr 2024, roedd y gyfradd gweithgarwch economaidd yn 79.4%, llawer uwch na'r 67.0% ym mis Rhagfyr 2019. Roedd hyn yn cyfateb i 6,000 o bobl ychwanegol yn y gweithlu ac felly ar yr adeg honno, roedd cyfradd Ceredigion yn uwch na’r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Phrydain Fawr. Erbyn Mawrth 2025, roedd y gyfradd wedi gostwng ychydig i 77.3%, sydd bellach yn is na’r cyfartaledd ar gyfer Prydain Fawr, ond yn uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol yng Nghymru. Yn yr un modd, cynyddodd y gyfradd gyflogaeth o 65.1% ym mis Rhagfyr 2019 i 77.3% erbyn mis Rhagfyr 2024, cyn gostwng ychydig bach i 74.6% erbyn mis Mawrth 2025.

Roedd y rhesymau dros y cynnydd yn ystod y pandemig yn debygol o fod yn gyfuniad o aelwydydd angen cynyddu eu gwydnwch ariannol, yr argyfwng costau byw dilynol a'r prinder gweithwyr ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig yn ehangach. Mae’r cynnydd yn ddiweddar mewn gweithgarwch economaidd a’r cyfraddau cyflogaeth yng Ngheredigion, sydd wedi dychwelyd erbyn diwedd 2024 i’r lefelau a gafwyd adeg y pandemig, yn fwy cymhleth ac anodd eu deall. Er enghraifft, gellir ei briodoli i’r ffaith bod y pwysau o ran costau byw yn parhau (e.e. mae chwyddiant a chostau cynyddol ar aelwydydd wedi cadw’r ffigyrau yn uchel), newidiadau mewn ymddygiad ar ôl y pandemig (e.e. agweddau wedi newid tuag at waith a gwytnwch ariannol) neu adferiad o fewn sectorau (e.e. sectorau fel adeiladu, logisteg a gofal iechyd).

Yn ystod y pandemig, ymunodd nifer fawr o fenywod â’r farchnad lafur leol. Serch hynny, mae’r ffigurau bellach wedi dychwelyd i fod yn debycach i’r lefelau a gafwyd cyn y pandemig, er bod mwy o fenywod yn parhau mewn gwaith nag oedd cyn 2020. Rhwng Ionawr 2019 a Rhagfyr 2019, roedd 66.9% o ddynion a 63.1% o fenywod mewn gwaith, sef bwlch o 3.8% rhwng y rhywiau a oedd yn ffafrio dynion. Rhwng Ionawr a Rhagfyr 2022, gwnaeth y bwlch hwn newid rhyw ychydig wrth i’r nifer o fenywod mewn gwaith gynyddu i 73.7% o gymharu â ffigwr o 72.7% ar gyfer dynion. Mae’n debyg mai pwysau ariannol a’r twf mewn rolau lle’r oedd mwyafrif y gweithwyr yn fenywod oedd yn gyfrifol am y newid hwn. Yn fwy diweddar, rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, mae’r bwlch rhwng y rhywiau wedi dychwelyd i’r lefelau a gafwyd cyn y pandemig – 76.2% o ddynion mewn gwaith a 72.6% o fenywod mewn gwaith. Er bod y bwlch rhwng y rhywiau yn debyg i’r un a fodolai cyn y pandemig, mae nifer y menywod mewn gwaith yn parhau i fod llawer yn uwch, sy’n awgrymu newid parhaol yn nheinameg y gweithlu.

Yn draddodiadol, mae hunangyflogaeth nid yn unig wedi bod yn rhan bwysig o’r gweithlu lleol, ond hefyd yn un arwyddocaol o ran cyflawni rolau mewn sectorau megis adeiladu ac amaethyddiaeth. Ar ddechrau'r pandemig ym mis Mawrth 2020, roedd y nifer a oedd yn hunangyflogedig i gyfrif am 19.0% o’r gweithlu. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf, gostyngodd y gyfran a oedd yn hunangyflogedig yn sylweddol i 13.5% ac roedd 2,500 yn llai o bobl yn hunangyflogedig erbyn mis Mawrth 2025. Serch hynny, mae nifer sylweddol o bobl yng Ngheredigion yn dal i fod yn hunangyflogedig. Yn wir, mae’r ffigwr bron ddwywaith yn fwy na’r cyfartaledd ar draws Cymru (7.8%). Mae nifer o ffactorau i gyfrif am hyn gan gynnwys y ffaith bod rhai pobl sy’n hunangyflogedig wedi ailddiffinio eu hunain fel cyflogeion, bod rhai wedi ailasesu eu hopsiynau o ran gyrfaoedd a bod rhai wedi rhoi’r gorau am y tro i’r hyn a arferent ei wneud. Hefyd, mae rhai wedi symud at gyflogaeth gan fod hyn yn cael ei hystyried yn fwy diogel.

Mae’r Cyngor yn parhau i gymryd camau rhagweithiol tuag at fonitro a chefnogi twf yr economi leol. Yn ei Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2022-27, un o’r pedwar Amcan Llesiant Corfforaethol yw “Hybu’r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth”.

Y gyfradd ddiweithdra yng Ngheredigion am y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025 oedd 2.9% ac mae’n parhau i fod yn is na'r gyfradd ledled Cymru gyfan (3.5%). Mae’r gyfradd ddiweithdra wedi gostwng ers y flwyddyn flaenorol (y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024), pan oedd y ffigwr yn 3.5%.

Mae tueddiadau cyflogaeth sy'n effeithio ar allu preswylwyr i dalu biliau Treth y Cyngor yn effeithio'n uniongyrchol ar gyfraddau casglu Treth y Cyngor a Chynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor.

### 6.3 Incwm ac enillion

Mae enillion yn cyfeirio at arian a enillir drwy gyflogaeth, tra bod incwm yn golygu cyfanswm yr arian a dderbynnir, gan gynnwys o enillion, budd-daliadau a phensiynau. Mae enillion ac incwm yng Ngheredigion yn is nag ar draws Cymru ac yn is na'r DU gyfan. Mae hon yn duedd gyffredin ymhlith siroedd sydd gan mwyaf yn wledig.

Mae Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2024 yn dangos bod enillion blynyddol cyfartalog yng Ngheredigion yn debyg i'r cyfartaledd yng Nghymru. Mae'r enillion blynyddol cyfartalog (canolrif) ar gyfer y rhai sy'n byw yng Ngheredigion yn £29,615, sydd i bob pwrpas yr union yr un fath â'r ffigwr o £29,614 ar gyfer Cymru gyfan.

Mae'r duedd yn debyg gydag incwm aelwydydd ond mae'r cyfartaledd cenedlaethol ychydig yn uwch na chyfartaledd y sir. Incwm canolrifol aelwydydd Ceredigion yn 2024 oedd £36,594 o gymharu â £36,914 ledled Cymru a £42,470 ledled y DU. Mae gan bron i draean o aelwydydd Ceredigion (32%) incwm aelwyd o £25,000 neu lai, ac mae gan ychydig dan chwarter (22%) incwm o £20,000 neu lai.

Yn ystod pandemig COVID-19 (2021-2022), culhaodd y bwlch rhwng enillion cyfartalog yng Ngheredigion yn ôl man preswyl a man gwaith yn sylweddol. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau diweddaraf ar gyfer 2024 yn dangos bod y bwlch yn ehangu eto wrth i'r economi leol ddychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig. Mae'r mater hwn yn parhau i fod yn her allweddol fel y nodir yn Strategaeth Economaidd 15 mlynedd Ceredigion.

### 6.4 Gofal Cymdeithasol

Diolch i ddatblygiadau arloesol mewn technoleg a gofal iechyd, mae'r boblogaeth fyd-eang o bobl dros 60 oed yn tyfu'n gyflymach nag unrhyw grŵp oedran arall. Erbyn 2033, bydd un o bob pedwar o boblogaeth Cymru dros 65 oed.

Yng Ngheredigion, mae nifer y bobl sy'n 65 oed ac yn hŷn eisoes yn uwch nag un o bob pedwar ac amcangyfrifir y bydd yn cynyddu i un o bob tri erbyn 2039. Amcangyfrifir mai 12.9% oedd y gyfran o boblogaeth Ceredigion sy'n 75 oed ac yn hŷn yn 2024, ac amcangyfrifir y bydd hwn yn tyfu i 15.9% erbyn 2034 ac i 18.5% erbyn 2043, sef cynnydd o 35%.

Amcangyfrifir mai 3.2% oedd cyfran poblogaeth Ceredigion sy'n 85 oed ac yn hŷn yn 2024, a disgwylir i hyn dyfu i 4.4% erbyn 2034 a 6.2% erbyn 2043, sef cynnydd o 83% yn y nifer yn y grŵp oedran hwn.

Rhagwelir y bydd Cymhareb Dibyniaeth Henaint Ceredigion yn gweld cynnydd o 441 o ddibynyddion fesul 1,000 yn 2024 i 483 o ddibynyddion fesul 1,000 yn 2034. (Y gymhareb yw nifer y bobl oedran Pensiwn y Wladwriaeth fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio).

Er gwaethaf y cynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth i 67 yn 2028, mae'r Gymhareb Dibyniaeth Henaint yn parhau i gynyddu. Mae hyn yn arwyddocaol, oherwydd mae'r cynnydd yn y boblogaeth sy'n heneiddio yn her fawr i bob Awdurdod Lleol gan y bydd yn anochel yn arwain at fwy o alw am wasanaethau'r cyngor. Er enghraifft, rhagwelir y bydd nifer y bobl sy'n 65 oed ac yn hŷn a fydd angen cymorth gyda gweithgareddau bywyd bob dydd yn cynyddu o 5,304 yn 2024 i 5,658 erbyn 2029 (6.7%) ac i 6,132 erbyn 2037 (15.6%).

### 6.5 Addysg

Y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a gynhelir bob mis Ionawr yw’r set ddata a ddefnyddir i fesur nifer y disgyblion ym mhob ysgol ledled Cymru. Defnyddir y set ddata hon hefyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Setliad Ariannol blynyddol Llywodraeth Leol. Bu gostyngiad cyson yn nifer y disgyblion yng Ngheredigion ac yn anffodus nid yw’r rhagolygon (gan gynnwys defnyddio data cyfraddau geni) yn dangos y bydd y duedd hon yn newid ar lefel macro.

Mae'r tabl isod yn dangos y sefyllfa wirioneddol ers 2023 a'r rhagolygon tymor canolig diweddaraf:

**Table 10: Niferoedd Disgyblion – gwirioneddol a rhagolygon**

| | **Gwirioneddol** | | | ***Rhagolwg*** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ion 2023 (22/23)** | **Ion 2024 (23/24)** | **Ion 2025 (24/25)** | ***Ion 2026 (25/26)*** | ***Ion 2027 (26/27)*** | ***Ion 2028 (27/28)*** |
| Ysgolion Cynradd | 4,568 | 4,476 | 4,309 | *4,241* | *4,062* | *3,904* |
| Ysgolion Uwchradd | 4,289 | 4,265 | 4,220 | *4,254* | *4,237* | *4,260* |
| **Is-gyfanswm** | **8,857** | **8,741** | **8,529** | ***8,495*** | ***8,299*** | ***8,164*** |
| Unedau ADY | 109 | 104 | 114 | *122* | *115* | *107* |
| **Cyfanswm** | **8,966** | **8,845** | **8,643** | ***8,617*** | ***8,414*** | ***8,271*** |

Mae hyn yn dangos y rhagwelir gostyngiad cyffredinol o 15% (664 yn llai o ddisgyblion) yn Ysgolion Cynradd Ceredigion rhwng Ionawr 2023 a Ionawr 2028. Mae sefyllfa’r Ysgolion Uwchradd yn gymharol gyson gyda gostyngiad bach o 1% yn unig. Mae hyn yn pwysleisio ymhellach fod angen cynnal Seilwaith Ysgolion sy’n ariannol hyfyw, gyda her yn bodoli yn y Sector Cynradd yn benodol.

Yng Ngheredigion, mae tua 72% o’r disgyblion yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf a chofnodir bod gan oddeutu 10% o ddisgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae maint bach rhai o ysgolion Ceredigion yn golygu ei bod hi’n anoddach iddyn nhw ddelio â gostyngiadau mewn refeniw nag ydyw i ysgolion mwy o faint mewn mannau eraill yng Nghymru.

Mae dosraniad y Grant Cynnal Refeniw hefyd yn dibynnu ar y symudiad cymharol yn nifer y disgyblion ar draws Awdurdodau Cymru. Mae cyfanswm y cyllid sydd i'w ddosrannu drwy'r Grant Cynnal Refeniw hefyd yn newid o flwyddyn i flwyddyn. Mae'n anodd mesur effaith y ddau ffactor hyn ar gyfran y Grant Cynnal Refeniw, er ei bod yn rhesymol tybio bod y ddau ffactor yn debygol o leihau cyllid Ceredigion.

Mae nifer o ysgolion Ceredigion wedi’u lleoli’n agos i’r ffin â siroedd eraill a gall niferoedd y disgyblion yn yr ysgolion hynny gael eu dylanwadu gan ffactorau lleol sy’n effeithio ar boblogrwydd ysgolion y naill ochr i’r ffin.

### 6.6 Rhwydwaith Priffyrdd

Mae cyfanswm hyd ffyrdd Ceredigion ymhlith y mwyaf o blith awdurdodau Cymru, sef cyfanswm o 2,265km. Mae tua 51.5% o ffyrdd Ceredigion yn ffyrdd dosbarth B ac C (1,167km) a elwir yn ‘isffyrdd’.

Mae canran y ffyrdd dosbarth A, B ac C yng Ngheredigion sydd mewn cyflwr gwael wedi cynyddu ychydig yn y blynyddoedd ddiwethaf. Cynyddodd y ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael i 4.0% yn 2025/26, ar y targed o 4%. Cynyddodd y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael i 3.1%, o fewn y targed o 6%. Roedd 12.3% o ffyrdd C mewn cyflwr gwael, sy'n uwch na'r targed o 12%.

Cynyddodd traffig ffyrdd yng Ngheredigion yn gyson cyn pandemig COVID-19, gan gyrraedd 507.2 miliwn o filltiroedd cerbyd yn 2019. Gostyngodd hyn yn sylweddol yn ystod y pandemig wrth i

gyfnodau clo cenedlaethol fod ar waith. Er bod cyfaint y traffig ar rwydwaith ffyrdd Ceredigion wedi cynyddu ers hynny, mae’n parhau’n is na’r lefelau cyn y pandemig, sef 469.1 miliwn o filltiroedd cerbyd yn 2023.

### 6.7 Seiberdroseddu

Mae seiberdroseddu yn parhau i fod yn risg wirioneddol i gyrff cyhoeddus, ac mae risgiau ariannol posibl yn gysylltiedig ag Ymosodiadau Seiber. O ganlyniad, ychwanegwyd risg Seiber-wytnwch newydd at Gofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor ym mis Ionawr 2024.

### 6.8 Yr Economi Twristiaeth ac Ymwelwyr yng Ngheredigion

Yn yr un modd â’r rhan fwyaf o ardaloedd arfordirol, mae'r diwydiant twristiaeth yn chwarae rhan fawr yn economi Ceredigion. Amcangyfrifwyd mai cyfanswm effaith economaidd y diwydiant twristiaeth yng Ngheredigion yn 2024 oedd £528m, sef cynnydd o 18.4% ar y flwyddyn flaenorol. Ers ailagor busnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn dilyn pandemig COVID-19 yn 2020, a’u hadferiad, mae Ceredigion wedi gweld cynnydd sylweddol yn effaith economaidd twristiaeth (+139.8% rhwng 2020 a 2022). Er bod y cynnydd sydyn a welwyd yn ystod y pandemig bellach wedi dechrau gwastatáu, mae effaith economaidd twristiaeth yn parhau i dyfu, er yn arafach.

Mae cyfanswm nifer yr ymwelwyr â'r Sir wedi gostwng ychydig i 2.87m (-3.3%) yn 2024 o 2.973m yn 2023. Mae'n bryderus gweld gostyngiad mewn ymwelwyr ond mae nifer o ffactorau a allai gyfrannu at hyn e.e. yr argyfwng costau byw sy'n rhwystro pobl rhag medru fforddio mynd ar wyliau. Mae'r tywydd yn 2025 wedi bod yn boeth ac mae niferoedd yr ymwelwyr â Cheredigion dros yr haf wedi bod yn gadarnhaol yn ôl yr hyn a glywn, ac amser a ddengys a fydd hyn yn trosi i fod yn gynnydd yn yr ystadegau swyddogol.

Fel yn 2024, amcangyfrifir bod y diwydiant twristiaeth yn cefnogi 5,535 o swyddi ledled y sir.

# 7. Rhagolwg Ariannol Tymor Canolig a Strategaeth y Gyllideb

Mae Setliad Llywodraeth Cymru i Lywodraeth Leol ar gyfer 2025/26 wedi darparu dyraniadau cyllid refeniw craidd ledled Cymru o £5.72 biliwn – sy'n cyfateb i godiad o £262 miliwn (4.5%) oddi ar 2024/25. Cyfanswm cyfran Ceredigion o'r setliad hwn oedd £144.2m - sy'n cyfateb i godiad o £5.3m (3.8%) - gan ei osod yn gydradd 14eg allan o 22 o ran cynnydd canrannol o blith holl Awdurdodau Lleol Cymru. Mae'r setliad o 3.8% yn ganlyniad i weithredu cyllid gwaelodol yn Setliad Terfynol Llywodraeth Leol yn hytrach na'r 3.6% a gynigiwyd yn wreiddiol yn y Setliad Dros Dro lle nad oedd cyllid gwaelodol. Ni ddarparwyd unrhyw arwydd ar gyfer setliadau y tu hwnt i'r flwyddyn bresennol.

Yn absenoldeb unrhyw arwydd cadarn gan Lywodraeth Cymru ac yng ngoleuni amgylchedd economaidd ansicr, ynghyd â datganiadau diweddar gan lywodraethau Cymru a Phrydain eu bod yn wynebu pwysau cyllidebol sylweddol a phenderfyniadau anodd, rhagdybir y bydd y setliadau blynyddol yn cynyddu gan 2% yn 2026/27 ac yna gan 1.6% yn flynyddol yn ystod gweddill tymor y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Byddai'r rhagdybiaethau hyn yn dal i fod **yn ostyngiad mewn termau real** o ystyried lefelau disgwyliedig chwyddiant.

Mae'r tabl isod yn nodi'r amcanestyniad o ran incwm a gwariant amcangyfrifedig ac felly'r bwlch amcangyfrifedig yn y gyllideb dros gyfnod y Strategaeth Ariannol. Mae pwysau costau manwl eisoes wedi'u dangos yn adran 5.8 uchod.

**Table 11: Amcanestyniadau Bwlch y Gyllideb**

| | *Nodyn* | 2026/27 £m | 2027/28 £m | 2028/29 £m | 2029/30 £m | 2030/31 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyllid Llywodraeth Cymru (AEF) | 1 | 147.1 | 149.5 | 151.9 | 154.2 | 156.8 |
| Treth y Cyngor | 2 | 69.8 | 75.0 | 80.7 | 86.7 | 92.8 |
| **Cyfanswm Incwm** | | **216.9** | **224.5** | **232.6** | **240.9** | **249.5** |
| | | | | | | |
| Cyllid Rhagdybiedig c/f | | 209.2 | 216.9 | 224.5 | 232.5 | 241.0 |
| Pwysau Cyllidebol | | 10.1 | 9.6 | 9.4 | 9.0 | 9.0 |
| **Gwariant disgwyliedig** | | **219.3** | **226.5** | **233.9** | **241.5** | **250** |
| | | | | | | |
| **Bwlch yn y Gyllideb** | | **2.4** | **2.0** | **1.3** | **0.6** | **0.4** |
| Cwtogiadau cyllidebol | | (1.0) | (0.8) | (0.5) | (0.5) | (0.4) |
| **Diffyg yn y Gyllideb** | | **1.4** | **1.2** | **0.8** | **0.1** | **-** |

*Nodyn 1: Bydd setliadau blynyddol Llywodraeth Cymru yn cynyddu gan 2% yn 2026/27 a gan 1.6% yn flynyddol wedi hynny.*

*Nodyn 2: Cynnydd yn Nhreth y Cyngor o 7.5% wedi'i fodelu at ddibenion cynllunio, ar wahân i 2030/31 lle defnyddiwyd rhagdybiaeth o 7.0%. Mae cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn ystyriaeth i'r Cyngor Llawn fel rhan o'r broses o osod Cyllideb bob blwyddyn.*

**Byddai'r senarios hyn yn arwain at Fwlch Cyllidebol o £6.7m dros y pum mlynedd nesaf**, ond mae hyn cyn unrhyw ragdybiaethau ynghylch cwtogiadau cyllidebol, cynhyrchu rhagor o incwm, arbedion ac ati. Ar ôl ystyried targed blynyddol o gwtogiadau cyllidebol (i gydnabod siwrne barhaus y Cyngor i wella, ynghyd â ffactorau hysbys neu benderfyniadau a wnaed eisoes), **mae'r Diffyg yn y Gyllideb yn gyffredinol yn gostwng i £3.5m dros y pum mlynedd nesaf**.

Rhoddir enghreifftiau o'r Diffyg yn y Gyllideb yn y tablau canlynol sy'n dangos yr effaith yn ôl gwahanol lefelau o gyllido o Dreth y Cyngor a Llywodraeth Cymru.

**Tabl 12: Dadansoddiad o'r senarios o ran Diffyg yn y Gyllideb - 2026/27 (£10.1m o Bwysau Costau)**


| | | Council Tax Increase | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 0.0% | 2.0% | 4.0% | 6.0% | 7.5% | 8.0% | 10.0% | 12.0% |
| Aggregate External Finance Settlement (AEF) | 0.0% | £9.1m | £7.8m | £6.5m | £5.2m | £4.3m | £4.0m | £2.7m | £1.4m |
| | 1.0% | £7.7m | £6.4m | £5.1m | £3.8m | £2.8m | £2.5m | £1.2m | -£0.1m |
| | 1.6% | £6.8m | £5.5m | £4.2m | £2.9m | £2.0m | £1.6m | £0.3m | -£1.0m |
| | 2.0% | £6.3m | £5.0m | £3.7m | £2.4m | £1.4m | £1.1m | -£0.2m | -£1.5m |
| | 3.0% | £4.8m | £3.5m | £2.2m | £0.9m | -£0.1m | -£0.4m | -£1.7m | -£3.0m |
| | 4.0% | £3.4m | £2.1m | £0.8m | -£0.5m | -£1.5m | -£1.8m | -£3.1m | -£4.4m |
| | 5.0% | £1.9m | £0.6m | -£0.7m | -£2.0m | -£2.9m | -£3.3m | -£4.6m | -£5.9m |

**Tabl 13: Dadansoddiad o'r senarios o ran Diffyg yn y Gyllideb - 2027/28 (£9.6m o Bwysau Costau)**

| | | Council Tax Increase | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 0.0% | 2.0% | 4.0% | 6.0% | 7.5% | 8.0% | 10.0% | 12.0% |
| Aggregate External Finance Settlement (AEF) | 0.0% | £8.8m | £7.4m | £6.0m | £4.6m | £3.6m | £3.2m | £1.8m | £0.4m |
| | 1.0% | £7.3m | £6.0m | £4.6m | £3.2m | £2.1m | £1.8m | £0.4m | -£1.0m |
| | 1.6% | £6.5m | £5.1m | £3.7m | £2.3m | £1.2m | £0.9m | -£0.5m | -£1.9m |
| | 2.0% | £5.9m | £4.5m | £3.1m | £1.7m | £0.6m | £0.3m | -£1.1m | -£2.5m |
| | 3.0% | £4.4m | £3.0m | £1.6m | £0.2m | -£0.8m | -£1.2m | -£2.6m | -£4.0m |
| | 4.0% | £2.9m | £1.5m | £0.1m | -£1.3m | -£2.3m | -£2.7m | -£4.0m | -£5.4m |
| | 5.0% | £1.5m | £0.1m | -£1.3m | -£2.7m | -£3.8m | -£4.1m | -£5.5m | -£6.9m |

Ar gyfer 26/27, gan ddefnyddio'r senarios a'r rhagdybiaethau a amlinellwyd, byddai modd cael gwared ar y Diffyg yn y Gyllideb gan fodelu Treth y Cyngor ar lai na 10%.

Mae'r rhagolygon ariannol tymor canolig a fodelwyd wedi'i osod yn erbyn cefndir o bell dros ddegawd o gyni sydd wedi arwain at gyfnod hir o ostyngiadau mewn cyllid mewn termau real. Mae arbedion cronnus o dros £70 miliwn wedi'u cyflawni yn ystod y cyfnod hwn er mwyn cyflawni cyllideb gytbwys, fel y dangosir yn y siart isod




Mae effaith gronnol y pŵer gwario y mae hyn wedi'i gymryd allan o economi Ceredigion yn sylweddol iawn oherwydd mae pob blwyddyn o arbedion cyllidebol yn ailadrodd o'r flwyddyn honno ymlaen. Mae effaith gronnol arbedion o'r maint hyn flwyddyn ar ôl blwyddyn yn werth oddeutu £0.5bn.

**I gloi, mae'r iteriad diweddaraf hwn o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn mynd ymhellach i'r dyfodol gan gwmpasu cyfnod o bum mlynedd erbyn hyn. Dylai sicrhau fod Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol heb greu Diffyg yn y Gyllideb sy'n gwbl afrealistig neu anghyraeddadwy. Fodd bynnag, wrth wneud hynny mae cynnydd yn y rhagdybiaethau sylfaenol ar gyfer Treth y Cyngor. Y dewis arall yw bod gostyngiad sylweddol yn narpariaeth gwasanaethau'r Cyngor a byddai gofyn gwneud penderfyniadau gwleidyddol yn gysylltiedig â hyn.**

# 8. Egwyddorion y Gyllideb

## 8.1 Rheoli Adnoddau'n Effeithiol

Mae dull Rheoli Ariannol y Cyngor yn cynnwys;

- Cydymffurfio â Rheoliadau Ariannol ffurfiol er mwyn sicrhau bod cyllidebau'n cael eu rheoli'n effeithiol yn ystod y flwyddyn.
- Bod rolau a chyfrifoldebau'r rheoli ariannol yn dryloyw ac wedi'u hymgorffori ar draws gwasanaethau'r Cyngor.
- Bod llythrennedd ariannol yn cael ei hyrwyddo'n weithredol ledled y sefydliad.
- Bod rheolaethau ariannol effeithiol ar waith a'u bod yn cwmpasu pob maes rheoli ariannol, rheoli risg a rheoli asedau.
- Sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni wrth ddarparu gwasanaethau.
- Dull ar y cyd rhwng Tîm Ceredigion dan arweiniad y Prif Weithredwr, y Swyddog Adran 151 a'r Grŵp Arweiniol ehangach.

Mae'r egwyddorion cyffredinol sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer defnyddio adnoddau'r Cyngor yn effeithiol yn cynnwys:

- Bod ceisiadau i gario tanwariant refeniw ymlaen yn cael eu hystyried ar ddiwedd y flwyddyn ac yn gyffredinol dim ond pan fyddant yn bodloni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol y cânt eu cefnogi.
- Bydd cronfeydd wrth gefn yn cael eu cynnal yn unol â pholisi cymeradwy'r Cyngor. Bydd unrhyw incwm annisgwyl a dderbynnir yn cael ei drin yn gorfforaethol.
- Bydd cronfeydd wrth gefn yn cael eu cadw at ddibenion penodol yn unig ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.
- Bydd cyllid grant ar gyfer refeniw a chyfalaf yn cael ei uchafu gan y Gwasanaethau lle bynnag y bo modd, o fewn cyfyngiadau telerau ac amodau'r grant.
- Lle mae angen ceisiadau am grant, mae angen cysylltu'r rhain ag Amcanion Llesiant y Cyngor.
- Bod angen ystyried strategaethau ymadael ar gyfer ceisiadau grant a chyllid grant perthnasol.
- Bod adnoddau'n cael eu targedu i gyflawni'r effaith gadarnhaol fwyaf e.e. defnyddio Cyfathrebu a Thechnoleg Gwybodaeth i gefnogi prosesau a gwell llif gwaith.
- Mynd ar drywydd effeithlonrwydd i wneud y defnydd gorau o asedau'r Cyngor, h.y. arian, tir, adeiladau, fflyd, staff a thechnoleg gwybodaeth. Er enghraifft, rhesymoli asedau ymhellach i leihau costau refeniw, cynhyrchu ffrydiau incwm neu gydleoli Gwasanaethau'r Cyngor / Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Ystyried y tymor hirach wrth gynllunio ar gyfer gwasanaethau a chyllidebau cynaliadwy a chynnal safonau gwasanaeth priodol ar gyfer y gwasanaethau rheng flaen craidd.

Mae'r camau a gymerwyd i adfer y gorwariant a ragwelir o £1.5 miliwn yn y flwyddyn 23/24 yn enghraifft o sut y gweithredodd y Grŵp Arweiniol ddull rheoli ariannol rhagweithiol ym mis Awst 2023, ar ôl derbyn mewnbwn a chyngor gan swyddog Adran 151. Roedd hyn yn cynnwys mesurau yn amrywio o ddefnyddio rhai cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi, gofyn i wasanaethau amrywiol wneud arbedion yn ystod y flwyddyn a rhoi rheolaethau ariannol ar waith ar wariant a recriwtio (gan gydnabod bod angen bodloni rhwymedigaethau statudol, cytundebol a phresennol craidd). O ganlyniad i'r dull rheoli ariannol rhagweithiol, y sefyllfa alldro derfynol ar gyfer 23/24 oedd gorwariant o ddim ond £10k ar y gyllideb o £180 miliwn. Mae hyn yn amlygu pa mor fedrus y mae angen i ddeiliaid cyllideb fod mewn tirlun ariannol heriol.

Gan adeiladu ar hyn, roedd Cyllideb 2024/25 yn ei gwneud yn ofynnol i 70 o Ostyngiadau i'r Gyllideb gael eu gwneud, cyfanswm o £5.8m. O ganlyniad i ddull Tîm Ceredigion o ymateb i'r her, y sefyllfa alldro derfynol ar gyfer 24/25 oedd tanwariant o £310k ar gyllideb o £194m (amrywiad o

0.16%). O fewn y sefyllfa hon, roedd 65 o eitemau gwerth cyfanswm o £5.1m (88% o'r arbedion) naill ai wedi'u cwblhau'n llawn neu ar y trywydd iawn.

### 8.2 Gweithio mewn Partneriaeth, Cyllid Allanol a Chydweithio

Mae'r Cyngor yn gweithio'n rhagweithiol ac ar y cyd ag amrywiaeth o bartneriaid i sicrhau'r canlyniadau gorau er budd ei ddinasyddion ac mae'n ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer cydweithio ag asiantaethau / awdurdodau lleol eraill. Mae'r strategaeth ariannol yn cymryd ymagwedd realistig ond darbodus tuag at gyllid partneriaeth posibl nad yw'n sicr nac wedi'i gadarnhau eto. Yn gyffredinol, ni thybir bod cyllid partner penodol neu incwm grant yn y rhagolygon oni bai bod ei ddyraniad wedi'i gadarnhau.

Fel rhan o strategaeth Hybu Economi Ceredigion bydd y Cyngor yn gweithio gydag amryw o bartneriaid gan gynnwys:

| | |
|---|---|
| • Llywodraeth Cymru | • Darparwyr sgiliau a hyfforddiant |
| • Llywodraeth y DU | • Cyrff sy'n cynrychioli busnesau |
| • Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru | • Cyllidwyr preifat a chyhoeddus |
| • Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch | • Sefydliadau'r trydydd sector |

Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ar lawer o brosiectau refeniw a chyfalaf sylweddol megis cynlluniau Amddiffyn Arfordir Aberaeron ac Aberystwyth.

Mae gan y Cyngor gyllid grant sylweddol ar gyfer cyflawni ei gyllideb refeniw gros. Mae grantiau penodol wedi cael eu trosglwyddo i'r grant cynnal refeniw ac anogir Llywodraeth Cymru i barhau â'r dull hwn. Byddai hyn yn golygu y byddai'r Cyngor yn gallu penderfynu ar y ffordd orau o wario'r cyllid fel rhan o'i Strategaeth Gorfforaethol ei hun, yn hytrach na bod yn rhan o un genedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i leihau baich gweinyddol grantiau ac wedi cychwyn ar raglen waith i adolygu hyn. Rydym dal ddim yn gwybod sawl grant a ddyfernir, sydd yn y pen draw, heb eu neilltuo trwy RSG yn hytrach na thrwy dyfarniadau grant Llywodraeth Cymru penodol unigol, gan mai nifer bach sydd wedi bod hyd yma.

Rhaid i gyllidebau adlewyrchu'n glir sylwedd unrhyw waith cydweithredol y mae'r Cyngor yn rhan ohono. Mae egwyddor gwariant gros cyllidebu yn ei gwneud yn ofynnol bod cyllidebau'n dangos gwariant ac incwm yr holl drafodion ar wahân. Lle mae Cyd-bwyllgorau a Chyd-bwyllgorau Corfforaethol yn bodoli, mae angen i'r rhain gytuno, yn ddigon cynnar, ar gyllideb ar gyfer gwaith y Cyd-bwyllgor er mwyn i gyfran y Cyngor gael ei adlewyrchu yn yng nghyllideb sylfaenol y Cyngor. Mae Cydbwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru yn rheoli Bargen Twf Canolbarth Cymru ac yn rhan o Gyngor Sir Ceredigion.


Mae Ceredigion yn bartner i Gyngor Sir Powys (a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar gyfer Cynllunio Strategol yn unig) sy’n ffurfio Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru sy’n endid cyfreithiol ar wahân ac annibynnol. Mae Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru yn gyfrifol am gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth a Chynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Yn ogystal, mae'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn gyfrifol am Lesiant Economaidd, ond mae'r swyddogaeth hon wedi'i dirprwyo i Gyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru.

### 8.3 Egwyddorion y Gyllideb Refeniw

Elfennau allweddol Strategaeth y Gyllideb a fydd yn helpu i gyfrannu at gyllideb gytbwys yw:

- Defnyddio’r ymagwedd ‘Tîm Ceredigion’ at her y gyllideb yn y Grŵp Arweiniol drwy edrych ar arbedion a chyfleoedd incwm yn gorfforaethol a thrawsbynciol fel bod newid trawsnewidiol allweddol yn parhau i gael ei gyflawni.

- Cynllunio yn gyffredinol i ddarparu dyraniadau cyllideb gwastad i Wasanaethau, oni bai bod cydnabyddiaeth gorfforaethol yn cael ei wneud am bwysau costau. Felly, mae angen i wasanaethau gwrdd â'u costau uwch sydd heb eu cyllido, drwy effeithlonrwydd pellach o'r gwasanaeth, incwm ac adennill costau, a newid o fewn y maes gwasanaeth yn gyffredinol. Mewn rhai achosion, bydd hyn yn golygu bod angen 'torri'r brethyn' yn unol â hynny a blaenoriaethu gweithgaredd a ffocws.
- Targedu gostyngiadau mewn Cyflenwadau a Gwasanaethau a Thaliadau Trydydd Parti lle bynnag y bo hynny'n bosibl, gan gynnwys unrhyw feysydd lle bernir bod Gwasanaethau a Phenawdau Cyllidebau yn flaenoriaeth is.
- Bydd incwm yn cael ei gynyddu i'r eithaf drwy gymhwyso'r Polisi Rheoli Incwm ac Adfer Costau.
- Gostyngiadau Gweithredol i'r gyllideb / arbedion effeithlonrwydd lle bynnag y bo modd e.e. bydd arbedion effeithlonrwydd (gan gynnwys buddsoddi i arbed cynlluniau ac arbedion caffael) yn parhau i gael eu ceisio fel rhan naturiol o welliant parhaus y Cyngor.
- Parhau i fynd ar drywydd cyfleoedd Rheoli'r Trysorlys a Chyllido Cyfalaf ar gyfer arbedion. Er enghraifft - mae benthyca allanol craidd y Cyngor (ac eithrio'r benthyca a ariennir yn llawn ar gyfer cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron) wedi lleihau'n sylweddol ers 2020 o £122.0m i £101.6m – gostyngiad o £20.4m / 16.7% dros y cyfnod. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i gyflawni arbedion sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda £1.6m o arbedion Rheoli'r Trysorlys yn rhan o 3 Chyllideb ddiwethaf y Cyngor.




- Defnyddio Premiymau Treth y Cyngor o fewn y paramedrau y cytunwyd arnynt gan y Cyngor Llawn.
- Buddsoddi yn y gwaith o gyflawni'r Strategaeth Ddigidol.
- Darparu gwasanaethau gan y trydydd sector (gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned) lle bo'n briodol.
- Bydd buddsoddiad yn parhau i gael ei ystyried i hwyluso ac ysgogi mentrau, ar yr amod bod achosion busnes yn gwneud synnwyr.
- Bydd unrhyw arbedion a gyflawnir cyn y gofyniad cyllidebol blynyddol yn cael eu cymhwyso i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, yn enwedig i gefnogi'r Amcanion Llesiant Corfforaethol neu i ysgogi prif fentrau eraill, yn ogystal â chymhwyso'r arbedion parhaus i'r gyllideb sylfaenol mewn blwyddyn diweddarach briodol pan fydd angen.
- Lle mae cyllid grant penodol yn cael ei drosglwyddo i RSG yna bydd yr adnoddau hyn yn cael eu dyrannu'n uniongyrchol i gyllideb y gwasanaeth perthnasol, ar yr amod bod cydberthynas glir â darparu gwasanaethau parhaus.
- Pan ddaw cyllid grant penodol i ben (naill ai'n naturiol neu fel arall), y disgwyliad arferol yw y bydd angen adolygu a rhoi'r gorau i'r gweithgaredd gwasanaeth cysylltiedig hyd yn oed os yw hynny'n creu'r sefyllfa o ddiswyddo.

- Sicrhau bod Caffael yn rhoi'r Gwerth Gorau drwy gydymffurfio â deddfwriaeth Diwygio Caffael newydd a gwneud y mwyaf o gyfleoedd Caffael lleol lle bo modd, gan gynnwys lleihau / dileu rhwystrau i fentrau bach a chanolig cyn belled ag y bo modd er mwyn sicrhau bod cymaint o '£' Ceredigion yn aros yng Ngheredigion.
- Bydd rhai eitemau yn cael eu cydnabod sef Eitemau Corfforaethol sydd angen dyraniadau blynyddol yn y model cyllidebol. Mae hyn yn cynnwys Cynllun Cymorth Treth y Cyngor, Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf, unrhyw drefniadau neilltuo ynghylch Premiwm Treth y Cyngor, Ffioedd Archwilio Allanol, Costau Pensiwn Hanesyddol / Etifeddol, Costau Democrataidd (Lwfansau Aelodau) ac Ardoll yr Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru.
- Dim ond at ddibenion untro anghylchol y dylid defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd.
- Bydd y gronfa wrth gefn costau a chwyddiant a glustnodwyd yn cael ei defnyddio i liniaru dros dro lle bo angen os yw / lle mae chwyddiant yn parhau i fod ar lefelau uchel.
- Bydd y Gronfa Wrth Gefn a Rheoli'r Gyllideb a glustnodwyd yn cael ei defnyddio i helpu i reoli pwysau o ran y gyllideb a fydd yn dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn lle bydd y pwysau hyn yn ymddangos y tu allan i'r broses Gyllideb arferol.
- Bydd y gyllideb yn cael ei phennu fel na fydd unrhyw alw'n cael ei wneud ar y Balansau'r Gronfa Gyffredinol i gefnogi'r gyllideb sylfaenol.
- Sicrhau bod digon o gyllid yn y gyllideb sylfaenol i ddiogelu gweithrediadau craidd y Gwasanaeth.
- Peidio â thargedu toriadau i'r Gyllideb o Wasanaethau, oni bai bod cyfarwyddyd gwleidyddol i leihau neu roi'r gorau i Wasanaethau neu swyddogaethau yn sylweddol (gan fod y gallu i ddarparu'r un gwasanaeth safonol gyda llai o adnoddau yn dod yn amhosibl).

**8.4 Egwyddorion y Gyllideb Gyfalaf**

Mae'r canlynol yn nodau strategol allweddol o ran gosod cyllideb gyfalaf:

- Defnyddir dull blaenoriaethu cyfalaf i ddyrannu adnoddau cyfalaf gan ddefnyddio gorwel piblinell hirdymor o 10 mlynedd cymaint â phosibl. Bydd Cynllunio Rheoli Asedau yn llywio'r gwaith o bennu a blaenoriaethu'r rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn gan gynnwys gwariant hanfodol ar asedau presennol y Cyngor.
- Nodi gwariant a all ddenu cyllid grant allanol, ar yr amod bod yr effaith refeniw barhaus yn gynaliadwy a bod cydymffurfiaeth ag Amcanion Llesiant Corfforaethol.
- Mae cynlluniau buddsoddi i arbed, sy'n dangos enillion ar fuddsoddiad a/neu gyfnod ad-dalu rhesymol, yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth uchel gan eu bod yn darparu cyfraniad cadarnhaol i sefyllfa'r gyllideb tymor canolig.
- Fel arfer, bydd cyllideb y rhaglen Gyfalaf yn cael ei gosod fel nad oes galw am fenthyca darbodus heblaw am ariannu prosiectau cyfalaf penodol. E.e. Rhoddir ystyriaeth i ddefnyddio benthyca darbodus pan nodir arbedion refeniw y gellir eu defnyddio i ariannu'r costau cyllido cyfalaf neu lle mae cost refeniw barhaus benthyca yn cael ei thalu'n llawn gan Lywodraeth Cymru (e.e. Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron, Menter Benthyca Llywodraeth Leol ar gyfer Priffyrdd).
- Bydd defnyddio cyllid, a neilltuir mewn cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, yn cefnogi'r rhaglen Gyfalaf, yn enwedig y Gronfa Gyfalaf Gorfforaethol yn ogystal â chronfeydd y pedwar Amcan Llesiant Corfforaethol e.e. ar gyfer prosiectau Addysg yn y dyfodol a Chynlluniau Amddiffyn yr Arfordir.
- Ystyrir derbyniadau cyfalaf yn gyfraniad cadarnhaol i'r rhaglen gyfalaf gyffredinol a chânt eu dyrannu yn unol â'r balans sydd ar gael ar ddechrau'r flwyddyn. Bydd ymatebion priodol yn digwydd i warediadau mawr pryd bynnag y bydd hyn yn codi.
- Mae gwariant a buddsoddiad o ran unrhyw asedau i wneud cyfraniad cadarnhaol i'r Amcanion Llesiant Corfforaethol ac i'w cefnogi.
- Datblygu strategaeth ariannu i gefnogi prosiectau mawr arfaethedig yn y dyfodol wrth i'r angen godi.

- Rhesymoli adeiladau a/neu optimeiddio defnydd adeiladau.
- Mesurau Effeithlonrwydd Ynni a Rhesymoli Fflyd (gan ddarparu ar gyfer Sero Net lle bo'n economaidd hyfyw).
- Cynnal seilwaith Addysg sy'n hyfyw yn ariannol.

## 8.5 Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a balansau

Mae datganiad o Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u clustnodi a Balansau Cyffredinol y Cyngor yn cael ei ddiweddaru o leiaf ddwywaith y flwyddyn a'i gyflwyno i'r Aelodau yn ystod pennu cyllideb a'r cyfrifon terfynol. Ceir crynodeb o sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn isod:

**Tabl 14: Cronfeydd wrth gefn a Balansau**

| | **Ar 31/03/25 Gwirioneddol** |
|---|---|
| Balansau Cyffredinol – Swm | £7.0m |
| *Balansau Cyffredinol – Canran* | *3.4%* |
| Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi (Gan gynnwys Balansau Dirprwyedig Ysgolion) | £41.0m |
| Balansau Dirprwyedig Ysgolion | £3.8m |

Polisi'r Cyngor yw bod balansau cyffredinol i'w cynnal rhwng 3% a 5% o'r gwariant net, ac mae hyn yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd.

Mae risg gyda chyfanswm Cyllideb Net cynyddol, bod y canran y Balansau Cyffredinol yn cael ei wanhau dros amser, fodd bynnag, mae'r Tanwariant 24/25 o £310k wedi cynorthwyo gyda hyn yn y tymor byr. Felly, efallai y daw pwynt lle byddai angen cyllidebu/gwneud cyfraniad ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn peidio â disgyn yn is na 3%. Dim ond at eu diben penodol y bydd cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn cael eu defnyddio ac ni fyddant yn cael eu defnyddio i fantoli'r gyllideb.

Mae'r Cyngor yn disgwyl cynnal lefel o £15m - £20 miliwn o 'fenthyca mewnol' dros dymor y strategaeth trwy ddefnyddio arian a ddelir mewn cronfeydd wrth gefn, sydd wedi'u clustnodi, sy'n lleihau'r angen i fenthyca. Amcangyfrifir bod y dull hwn yn arbed rhwng £0.75m a £1 miliwn i'r trethdalwr yn flynyddol, sy'n cyfateb i arbediad o tua 1.5% mewn taliadau Treth y Cyngor bob blwyddyn.

# 9. Asesiad Risg a Dadansoddiad Sensitifrwydd

Mae'r rhagdybiaethau a nodir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar y pryd. Mae risg bob amser y gallai'r rhain newid. Felly mae'r tabl isod yn ystyried Dadansoddiad Sensitifrwydd i ddangos yr effaith amcangyfrifedig o newid o 1% (+/-) yn y ffactorau allweddol sy'n effeithio ar y Cyngor.

**Tabl 15: Dadansoddiad Sensitifrwydd**

| | Rhagdybiaeth | Effeithiau amrywiad 1% i gyfraddau tybiedig (+/-) £'000 |
|---|---|---|
| Incwm | Setliad AEF Llywodraeth Cymru | 1,450 |
| | Treth y Cyngor (Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor) | 650 |
| | Treth y Cyngor (Net Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor) | 580 |
| | Cyfraddau llog (Incwm Buddsoddi) | 360 |
| | Grantiau Allanol | 450 |
| | Ffioedd a Thaliadau (gan nodi nad yw pob un yn cael eu pennu gan y Cyngor) | 360 |
| Gwariant | Dyfarniad Cyflog – Cyffredinol | 1,050 |
| | Dyfarniad Cyflog – Athrawon | 480 |
| | Yswiriant Gwladol Cyflogwyr | 940 |
| | Cyfradd Cyfraniad Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | 810 |
| | Cyfradd Cyfraniad Pensiwn Athrawon | 300 |
| | Contractau Darparwyr Gofal Cymdeithasol | 400 |

Er mwyn bod yn gyflawn, crynhoir isod y rhagdybiaethau allweddol a ddefnyddiwyd ar draws cyfnod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig:

**Tabl 16: Crynodeb o'r Rhagdybiaethau Allweddol**

| Rhagdybiaethau Modelu | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwysau Costau'r Gyllideb | £10.1m | £9.6m | £9.4m | £9.1m | £9.0m |
| Codiadau Darparwyr Gofal Cymdeithasol | 4.5% | 4.0% | 3.0% | 3.0% | 2.5% |
| Setliad AEF Llywodraeth Cymru | 2.0% | 1.6% | 1.6% | 1.6% | 1.6% |
| Treth y Cyngor | 7.5% | 7.5% | 7.5% | 7.5% | 7.0% |
| Dyfarniad cyflog NJC | 2.75% | 2.5% | 2.5% | 2.25% | 2.0% |
| Dyfarniad cyflog Athrawon | 2.75% | 2.5% | 2.5% | 2.25% | 2.0% |
| Cyflog Byw Gwirioneddol | 5.0% | 4.5% | 3.0% | 3.0% | 2.5% |
| Chwyddiant CPI | 2.7% | 2.0% | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Cyfradd Sylfaenol Banc Lloegr | 3.6% | 3.5% | 3.25% | 3.0% | 3.0% |

**Pwysau Costau**

Bydd risgiau pellach bob amser o amgylch pwysau costau posibl h.y. Materion sydd naill ai'n ansicr i'w gwireddu neu'n anodd iawn eu hamcangyfrif, maent felly'n peri risg ariannol ychwanegol i amcangyfrifon bwlch yn y Gyllideb o fewn y strategaeth. Byddai enghreifftiau'n cynnwys:

- **Cyfraddau Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwyr** E.e. Newidiadau i gyfraddau SCAPE ynghylch cyfraniadau Pensiwn Athrawon a chyfraniadau pensiwn y Diffoddwyr Tân drwy gyfraniad Ardoll Tân ac Achub Canolbarth Cymru'r Cyngor.
- **Gwasanaeth Gwastraff: Cynllun Cyfrifoldeb Cynhyrchydd Estynedig -** Mae DEFRA yn cydweithio â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i reoli'r gostyngiad mewn costau

pecynnu sy'n anoddach ei ailgylchu. Nid yw manylion ynghylch gweithrediad y cynllun yn glir ar hyn o bryd.

- **Cyllid grant –** Mae gan y Cyngor nifer o feysydd gwasanaeth lle mae gweithgaredd rheng flaen yn cael ei ariannu gan grant. Mae risg bob amser na fydd arian grant yn cael ei warantu yn y dyfodol. Efallai y bydd achosion yn y dyfodol lle tynnir cyllid grant yn ôl mewn meysydd gwasanaeth lle nad yw'r Cyngor yn gallu lleihau'r ddarpariaeth gwasanaeth.

**Cofrestr Risgiau Corfforaethol**

Mae'r disgrifiad risg canlynol wedi'i gynnwys yng Nghofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor, sy'n cael ei goruchwylio gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

*Bydd lleihau cyllid craidd ac allanol yn arwain at ostyngiad o ran darparu gwasanaethau mewn rhai meysydd oni bai bod Gostyngiadau i'r Gyllideb a/neu ystyriaethau Treth y Cyngor yn cymryd lle hyn.*

*Bydd methu ag addasu, cynllunio ar gyfer a gweithredu Gostyngiadau i'r Gyllideb a/neu ystyried modelau amgen/arloesol o ddarparu gwasanaethau yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cael effaith niweidiol ar ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol a chyfrifoldebau ariannol y Cyngor.*

Canlyniadau posib i'r risg hon yw:

a) Risg o fethu â chwrdd â therfynau amser statudol ar gyfer pennu cyllideb.
b) Y risg yr effeithir ar ddarparu gwasanaethau oherwydd lleihad mewn adnoddau, cyfnod byr i wneud newid i wasanaethau neu fethu â blaenoriaethu gwariant yn effeithiol yn unol â blaenoriaethau corfforaethol.
c) Risg bod pennu cyllideb flynyddol yn rhwystro cynllunio tymor hwy wrth i'r ffocws ddod yn ymateb i argyfyngau a goroesiad tymor byr yn hytrach na chynaliadwyedd tymor hir.
d) Risg bod angen cynnal codiadau yn Nhreth y Cyngor ar lefel uwch oherwydd diffyg cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru, ond er mwyn diogelu a chynnal lefel isafswm o Wasanaethau
e) Risg nad yw Aelodau'n fodlon gwneud penderfyniadau anodd / amhoblogaidd hyd yn oed os yw'r rhesymeg / achosion busnes sylfaenol yn gadarn.

Mae'r risg ar hyn o bryd ar y sgôr uchaf posibl o 25.

Gwasanaeth Cyllid a Chaffael
Cyngor Sir Ceredigion
Neuadd Cyngor Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA
clic@ceredigion.gov.uk

www.ceredigion.gov.uk